



## BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU

### Adroddiad Blynddol 2021 – 2022



## Cyflwyniad:



### **Mae'n bleser gennym gyd-gyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud yng nghyswllt yr amcanion a osodwyd gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGB) a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) fel rhan o'n cyd Gynllun Strategol Blynyddol ym y flwyddyn 2021-22. Wrth i ni symud ymlaen i gyhoeddi, ni fel Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r asiantaethau rydym yn eu cynrychioli, mae bellach dros ddwy flynedd ers dechrau'r cyfnod clo cyntaf oherwydd Covid19. Fu hi erioed o'r blaen mor bwysig i asiantaethau ar draws y bartneriaeth strategol gydweithio, i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn perygl ac anghenus yn parhau i gael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag niwed.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae ein penderfyniad a'n gwytnwch fel asiantaethau cyhoeddus atebol wedi'u profi i'r eithaf dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Trwy waith partneriaeth rhagorol, rydym ni fel rhanbarth wedi gallu cydnabod a gwerthfawrogi cryfder a manteision ymateb cydweithredol i'r argyfwng cenedlaethol hwn.

Rhaid inni gydnabod yr heriau sydd o'n blaenau yn y flwyddyn ariannol newydd, rydym yn dechrau gweld yr effaith lawn y mae Covid 19 wedi'i chael ar weithlu'r rhanbarth. Mae Recriwtio a Chadw staff wedi effeithio ar bob asiantaeth yn y rhanbarth. Mae nifer o Staff Diogelu profiadol yn y rhanbarth wedi gwneud y penderfyniad i symud i ffwrdd o arferion diogelu rheng flaen. Mae Ymarferwyr Diogelu yn parhau i dynnu sylw at gymhlethdod yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at bob asiantaeth

Mae'r heriau digynsail hyn wedi dangos pwysigrwydd hollbwysig y Byrddau Diogelu Rhanbarthol o ran sicrhau ymateb aml-asiantaeth i heriau o ran diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Yn olaf, hoffem ddiolch i aelodau Byrddau Diogelu Gogledd Cymru ac is-grwpiau am eu hymgylltiad, eu hymrwymiad a'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond yn bwysicaf oll i'r holl weithlu diogelu ar draws y rhanbarth.

Jenny Williams  
**Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant  
Gogledd Cymru**

Neil Ayling  
**Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion  
Gogledd Cymru**

***Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel,  
waeth pwy ydyn nhw neu beth yw eu  
hamgylchiadau –  
Mae Diogelu yn Fusnes i Bawb***

[Gwyliwch 'Gweld Rhywbeth, Dweud Rhywbeth'](#)



**Os ydych yn amau bod unigolyn mewn risg uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siaradwch gyda'r Heddlu.**

Os ydych chi wedi bod neu'n dal yn ddioddefwr cam-drin, neu os ydych chi'n adnabod rhywun rydych chi'n meddwl sy'n cael ei gam-drin, cysylltwch â'ch awdurdod lleol – mae manylion cyswilt wedi'u rhestru ar y wefan.

Mynegai:

Cynnwys:

Tudalen:

	Amcanion y Byrddau Diogelu	5
1	Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru	5
2	Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol.	7
3	I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar.	10
4	Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy'n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd?	14
5	Unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau.	15
6	Cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn.	15
7	I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd.	19
8	Asesiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau.	31
9	Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y ddengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad.	<b>33</b>
10	Y nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardal y Bwrdd Diogelu.	37
11	Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu	37
12	Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymhell neu ei ddarparu.	38
13	Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol.	40
14	Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu.	41
	Atodiad 1: Rhestr Termau	43

## Amcanion y Byrddau Diogelu:

Nid yw gwasanaethu dinasyddion a chymunedau amrywiol rhanbarth gogledd Cymru, sy'n cynnwys chwe ardal Awdurdod Lleol, yn dod heb heriau sylweddol yn ei sgil. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd a'i aelodau'n parhau i fod yn falch o'r ethos cryf o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'i sefydlu ar lefel yr uwch fwrdd gweithredol a'r is-grwpiau. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn i ddod ac at barhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf er mwyn cyflawni ein hamcanion a'n dyhead i gyrraedd rhagoriaeth mewn gwaith Diogelu, ymarfer proffesiynol, a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cymunedau.

Mae amddiffyn ac atal plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag dioddef niwed, a hyrwyddo lles pobl gogledd Cymru, gan eu galluogi i gyflawni gwell canlyniadau, yn parhau i fod yn ganolog i waith y Bwrdd.

Nodwyd meysydd sydd angen parhau i'w gwella a fydd yn galluogi'r Bwrdd a'i aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, fel y'u hamlinellir yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i amddiffyn ac atal plant ac oedolion sydd mewn perygl yn y rhanbarth rhag dioddef camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.

## 1.0 Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru:


### 1.1 Strwythur ac Aelodaeth:

Ar hyn o bryd mae Byrddau Diogelu Gogledd Cymru yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac ar y cyd unwaith y flwyddyn. Yn ychwanegol at hynny mae Diwrnod Datblygu Busnes ar y cyd yn cael ei gynnal yn flynyddol i osod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac i hunanasesu cynnydd y Byrddau.


Mae Grwpiau Cyflawni Ymarfer a Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau Plant y Bwrdd yn cwrdd bob chwarter ar hyn o bryd. Mae'r Grwpiau Adolygu Ymarfer, a'r Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau Oedolion a'r Grŵp Gweithlu a Hyfforddiant ar y Cyd, yn cyfarfod ddwywaith y mis.

### Strwythur Bwrdd:

### Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru



## Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru




### Aelodaeth y Bwrdd:

<b>BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU</b>	<b>Cadeirydd:</b> Neil Ayling (Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint)
Is-gadeirydd: Michelle Denwood - Cyfarwyddwr Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)	Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC
Cyngor Ynys Môn - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Gwasanaethau Oedolion	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Swyddog Dynodedig
CBS Conwy - Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg a Phennaeth y Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu	Heddlu Gogledd Cymru – Ditectif Uwch-arolygydd/Uned Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn
Cyngor Sir Ddinbych - Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Phennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	Iechyd Cyhoeddus Cymru – Nyrs Dynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol
Cyngor Sir y Fflint - Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu	Fforwm Gofal Cymru – Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gwasanaeth
Cyngor Gwynedd - Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Iechyd a Lles Oedolion	Ambiwlans Cymru –Pennaeth Diogelu
CBS Wrecsam - Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Rheolwr Tîm Atal Tanau Bwriadol ac Addysg Busnes
	Carchar EM Berwyn – Pennaeth Diogelwch a Chydraddoldeb

<p><b>BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU</b></p>	<p><b>Cadeirydd:</b> Jenny Williams - Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p>
<p>Is-gadeirydd: Simon Williams - Ditectif Uwcharolygydd Uned Diogelu Pobl Diamddiffyn – Heddlu Gogledd Cymru</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - Cyngor Ynys Môn</p> <p>Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Phennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant - Cyngor Sir Ddinbych</p> <p>Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol. Pennaeth Gwasanaethau Plant - Cyngor Sir y Fflint</p> <p>Pennaeth Cefnogi Plant a Theuluoedd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyngor Gwynedd</p> <p>Pennaeth Gwasanaethau Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</p> <p>Nyrs Dynodedig Tîm Diogelu Cenedlaethol - Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>	<p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Cyfarwyddwr Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd a Doctor Enwebedig Diogelu Plant</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid</p> <p>Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid Wrecsam</p> <p>Pennaeth yr Uned Cyflawni Lleol - Y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf</p> <p>Pennaeth Diogelu Corfforaethol, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant - Barnardo's</p> <p>Arbenigwr Diogelu, Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion - Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru</p>

## 2.0 Camau gweithredu mae'r Byrddau Diogelu wedi'u cymryd i gyflawni canlyniadau penodol.



### Ymateb BDGC i Covid-19

Yn ystod 2021-22, parhaodd y Bwrdd i fonitro effaith Covid-19. O'r adroddiad blynyddol blaenorol, fe wnaethom nodi'r effaith ar atgyfeiriadau/adroddiadau diogelu a sut yr ymatebodd pob asiantaeth ar draws y rhanbarth i hynny.

Dangosodd y Bwrdd sut mae wedi ymateb i Ganllawiau Interim Llywodraeth Cymru ynghylch rôl y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ystod Covid19. Parhaodd holl gyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd is-grwpiau trwy gydol 2021-22.

O drafodaethau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn nodwyd y materion canlynol:

- ❖ Gweithlu a Recriwtio – heriau presennol yn y sector, prinder staff diogelu rheng flaen. Mae pob asiantaeth wedi amlygu hyn fel her yn ystod 21-22.
- ❖ Dewisiadau lleoliad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, yr angen i gynyddu'r dewis o leoliadau / recriwtio Gofalwyr Maeth / lle bo modd lleihau'r angen am leoliadau heb eu rheoleiddio.
- ❖ Cynnydd yn y galw am Adroddiadau/Atgyfeiriadau Diogelu Oedolion.
- ❖ Cymhlethdod Achosion Diogelu mewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant.
- ❖ Materion ymarfer lluosog i weithwyr ddelio â nhw.
- ❖ Rheoli proses Adran 5 – gwahanol ddulliau ym mhob ardal Awdurdod Lleol.
- ❖ Caledi Ariannol.
- ❖ Gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid.
- ❖ Effaith oedi ambiwlansys WAST.

Trwy gynnal y trafodaethau hyn yn y Bwrdd, mae'n galluogi'r holl bartneriaid i werthfawrogi'r pwysau presennol a lle bo modd hyrwyddo ymateb rhanbarthol.

#### [Ymateb BDGC i'r Wefan 'Everyone's Invited'](#)

Yn ystod y flwyddyn hon, ymatebodd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru i'r honiadau a wnaed ar y wefan hon. Mae'r wefan a'r cyfrif Instagram o'r enw 'Everyone's Invited' yn gwahodd pobl i rannu eu profiadau diwylliant trais rhywiol yn ddiennw ond mae'n eu gwahodd i enwi eu hysgol neu brifysgol.

Gwelsom fod nifer o ysgolion, colegau a phrifysgolion yn y rhanbarth wedi'u henwi. Mewn ymateb i'r honiadau difrifol hyn, gofynnwyd am sicrwydd gan y Cyfarwyddwyr Addysg mewn perthynas â'r pryderon a gwelsom y mesurau diogelu a oedd wedi'u rhoi ar waith ar y pryd a'r mesurau ychwanegol a gymerwyd i sicrhau bod gan ddisgyblion / aelodau'r teulu fynediad atynt i amlygu pryder diogelu. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys 'Stop It Now' a'r 'Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol' i gyd ar gael mewn ysgolion yng Ngogledd Cymru.

Mewn perthynas ag Oedolion mewn Perygl, cynhaliodd y Bwrdd archwiliad o bolisiau diogelu a oedd gan Golegau Addysg Bellach a Phrifysgolion y rhanbarth. Gwelsom enghraifft wych gan Goleg Cambria. Er hynny, fe wnaethom nodi rhai bylchau mewn polisiau diogelu eraill yn y maes yn ymwneud â deddfwriaeth Oedolion mewn Perygl.

Bydd digwyddiad BDGC yn cael ei gynnal gyda'r colegau addysg bellach a phrifysgolion yn ddiweddarach eleni lle byddwn yn tynnu sylw at Weithdrefnau Diogelu Cymru a hefyd themâu penodol sy'n berthnasol megis Caethwasiaeth Fodern a Sbeicio.

Oherwydd y pryderon cenedlaethol ynghylch y cynnydd mewn achosion o Sbeicio, datblygodd y Bwrdd sesiwn frifio 7-munud benodol ar y mater hwn.

 [Sbeicio](#)

## Ymateb BDOGC i Honiadau Hanesyddol o Gam-drin

Derbyniodd BDOGC ohebiaeth gan aelod o'r teulu a phartïon eraill â diddordeb mewn perthynas ag adroddiad hanesyddol ynghylch yr anghytundebau rhwng y Rheolwyr a Staffio o fewn ward Ysbyty. Ar y cyd ag Uned Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru, creodd BDOGC Grŵp Tasg a Gorffen Aml-asiantaeth i adolygu gwybodaeth hanesyddol i egluro bod unrhyw bryderon diogelu wedi'u huwchgyfeirio'n briodol yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol ar y pryd.

Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen Aml-asiantaeth yn gallu nodi bod materion diogelu yn cael eu huwchgyfeirio yn unol â'r canllawiau. Fe wnaethom hefyd amlygu ein bod wedi gweld newidiadau sylweddol mewn arferion diogelu ers 2014 mewn perthynas â'r fframwaith cyfreithiol yng Nghymru a hefyd mewn perthynas ag ymarfer. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 bellach wedi gosod diogelu oedolion ar sail statudol ac mae gennym bellach Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

Ers sefydlu BDOGC ddiwedd 2014, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gyda'r holl bartneriaid mewn perthynas â gwella arferion diogelu, drwy roi'r Gweithdrefnau newydd ar waith. Rydym wedi canolbwyntio ar gydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac wedi gwella cydweithio rhwng yr asiantaethau.


## Gwell Cydweithio rhwng Byrddau Partneriaethau Diogelu ar draws Gogledd Cymru

Fel rhanbarth rydym wedi parhau i gryfhau'r berthynas rhwng y Partneriaethau Diogelu ar draws Gogledd Cymru.

Mae cyfarfod Cadeiryddion y Byrddau Strategol yn gweithio i:

### Strwythur y Bwrdd Partneriaeth:

- ❖ Darparu trosolwg strategol o'r byrddau i sicrhau gweithio mewn partneriaeth effeithiol a lleihau'r tebygolrwydd o weithio seilo.
- ❖ Sicrhau bod gwaith y byrddau strategol yn cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol mewn perthynas â diogelu cymunedau, atal trosedd, dal troseddwr a diogelu a chefnogi'r rhai agored i niwed.



Ym maes gwaith yn ymwneud â'r Adolygiad Sengl o Ddiogelu Unedig, mae diweddariadau chwarterol wedi'u rhannu ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch symud i un grŵp adolygu arfer achos.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi integreiddio'r is-grŵp Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol gyda'r grŵp hyfforddi VAWDASV Rhanbarthol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i

rannu dysgu ac osgoi dyblygu mewn rhaglenni gwaith.

### 3.0 I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar.

#### **Blaenoriaeth Strategol 1 – Parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth a chydymffurfiad o ran Gweithdrefnau Diogelu (Oedolion) Cymru (BDOGC)**

Mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth hwn, gofynnwyd i bob un o asiantaethau statudol y BDOGC i gwblhau pecyn cymorth hunanasesu.

Roedd y pecyn cymorth yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- ❖ Polisiâu a gweithdrefnau
- ❖ Gofynion cofnodi
- ❖ Datblygu'r gweithlu
- ❖ Diwylliant sefydliadol
- ❖ Comisiynu

Mewn perthynas â'r crynodeb o ganfyddiadau, mae asiantaethau wedi diweddarau polisiâu a gweithdrefnau yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd pob asiantaeth wedi darparu tystiolaeth ynghylch yr hyfforddiant diogelu a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Roedd y pryder a nodwyd yn yr archwiliad yn ymwneud ag Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Teimlai asiantaethau fod angen gwaith pellach ar yr adran hon ar lefel genedlaethol. Yn benodol, mewn perthynas â chanlyniadau diwedd proses adran 5 ynghylch yr unigolyn, nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes ymarfer hwn. Byddai asiantaethau hefyd yn elwa o ganllawiau ychwanegol o amgylch y trothwy ar gyfer cyfarfod Adran 5. Trosglwyddwyd yr adborth o'r adran hon o'r archwiliad i'r Bwrdd Prosiect Cenedlaethol.

Yn ogystal, roeddem hefyd yn gallu nodi'r gwaith yr oedd sefydliadau wedi'i wneud i sicrhau bod systemau TG wedi'u diweddarau i sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Nodwyd meysydd gwaith ychwanegol mewn perthynas â Chomisiynu. Roedd contractau ar draws y rhanbarth yn cael eu diweddarau i adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn wedi arwain at waith yn cael ei wneud gyda Darparwyr Gofal i sicrhau bod staff yn cael mynediad at hyfforddiant a pholisïau yn y lleoliad sy'n cyfeirio'n glir at Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd BDOGC hyfforddiant penodol ar Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Cymru.


Nodau'r gweithdy:

- ❖ I amlygu sut mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ategu'r symudiad oddi wrth

ymyriadau diogelu sy'n canolbwyntio ar dargedau ac wedi'u harwain gan broses tuag at ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a chyrraedd y canlyniadau y mae'r oedolyn yn dyheu amdanynt (canlyniadau a wiriwyd ac a allai newid yn ystod yr ymyrraeth).

- ❖ I ystyried sut mae unigolion sy'n ymwneud â gweithgareddau diogelu yn gallu arddangos dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolion a sut gall prosesau diogelu sefydliadau arddangos ymrwymiad i ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mynychodd dros 200 o staff amlasiantaeth y gweithdai yn ystod y flwyddyn.



Mae'r Bwrdd hefyd wedi gwneud gwaith pellach yn y meysydd canlynol o gwmpas:

- ❖ Sicrhau bod y llwybr diogelu amlasiantaeth yn effeithiol mewn perthynas ag Achosion o Gam-drin Domestig ac Oedolyn mewn Perygl.
- ❖ Mewn ymateb i'r cynnydd mewn Achosion Cam-drin Domestig, cynhaliwyd peilot o gyfarfodydd MARAC wythnosol ar draws y rhanbarth. Rhannwyd enghraifft o arfer da yng nghynhadledd Byrddau Diogelu Gogledd Cymru.
- ❖ Datblygodd y Bwrdd hefyd ganllaw ymarfer penodol mewn perthynas ag Oedolion



Fe wnaethom hefyd ddechrau canolbwyntio mwy ar Brofiadau Byw y Plentyn. Cynhyrchodd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ganllawiau i staff yn amlygu'r arfer da canlynol:

Er mwyn sicrhau fod y profiad bywyd yn cael ei nodi gan ddefnyddio geiriau a phrofiadau'r plentyn neu'r gofal eu hunain, dylai'r gweithiwr proffesiynol fod yn chwilfrydig wrth gael sgwrs:

- ❖ Fe fydd cwestiynau agored yn helpu i ddechrau'r sgwrs ac yn gweithredu fel ysgogwyr i alluogi'r sgwrs i fynd yn ei blaen.
- ❖ Defnyddiwch gliwiau fel iaith y corff a mynegiant wyneb i archwilio teimladau neu i gael rhagor o wybodaeth gan y plentyn neu'r darparwr gofal.
- ❖ Ewch ar gyflymder y plentyn/darparwr gofal wrth rannu eu profiad bywyd.
- ❖ Sicrhewch eich bod wedi deall yr hyn sydd wedi ei rannu.
- ❖ Pan fo gan blentyn iaith gyfyngedig o ganlyniad i oed neu anghenion dysgu, fe all y gweithiwr proffesiynol ddefnyddio eu gwybodaeth ynglŷn â'r canlyniadau a ddisgwylir ar gyfer oed y plentyn a'r cyfnod o ddatblygiad yn ogystal â'u harsylwadau a gwybodaeth a rennir gan y darparwr gofal a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn.
- ❖ Cofnodwch y sgwrs gan ddefnyddio geiriau a mynegiant y plentyn a'r darparwr gofal eu hunain gymaint â phosibl "Ches i ddim brechwast heddiw....."
- ❖ Byddwch yn greadigol i nodi profiadau bywyd e.e. pensel a phapur ar gyfer tynnu llun, ysgrifennu'r hyn a ddywedir, recordio ar ffôn, creu blog.
- ❖ Nodwch brofiadau bywyd dros sawl sgwrs, nid oes rhaid gwneud hyn ar yr un tro.
- ❖ Archwiliwch beth ym marn y plentyn a'r darparwr gofal yw cryfderau eu teulu, beth sy beth ym marn y plentyn a'r darparwr gofal yw cryfderau eu teulu, beth sy'n destun balchder iddynt
- ❖ Archwiliwch beth fyddai'r plentyn a'r darparwr gofal yn hoffi ei newid ar gyfer eu teulu yn ogystal â rhannau o'r diwrnod y maent yn ei hoffi neu'n ei gael yn anodd.
- ❖ Fe fydd dadansoddiad o'r hyn mae eu profiadau bywyd yn ei ddweud wrthym yn hysbysu asesiadau, cynllunio ac adolygiadau.

 [Canllaw Profiad Byw Dyddiol](#)

Mae BDPGC hefyd wedi parhau i weithredu cynllun gweithredu Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) Cenedlaethol. Canolbwyntio trwy gydol y flwyddyn ar hyrwyddo ymgyrch Stop It Now a mewnbwn trwy gydol y flwyddyn gyda'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan y Ganolfan i'r Bwrdd Llawn a chyflwyniadau i'r Grwpiau Cyflawni Lleol.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cafwyd cyflwyniadau ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 7, Diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Derbyniwyd bod gennym fwy o waith i'w wneud o fewn y rhanbarth mewn perthynas â'r canllawiau hyn. Amlygodd y canllawiau nad yw gorddibyniaeth ar offer asesu risg arbenigol bob amser yn cefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac y gallai amharu ar farn broffesiynol.

### **Blaenoriaeth Strategol 3: Parhau i sicrhau dull cadarn, gwydn a chyson o ymdrin ag arferion diogelu yn ystod pandemig Covid-19**

Yn y ddau gyfarfod Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd trafodaethau ynghylch effaith Covid ar y gweithlu.

Nodwyd nifer o faterion ymarfer:

- ❖ Ddim yn gweithio mewn swyddfa gyda chydweithwyr.
- ❖ Unigedd ar gyfer nifer o weithwyr sy'n byw ar eu pennau eu hunain.
- ❖ Gweithwyr yn gorfod rhoi tystiolaeth i wrandawiadau llys o'u cartrefi.

Ceisiodd y Bwrdd sicrwydd oddi wrth yr holl sefydliadau yn bresennol yn y cyfarfodydd bwrdd, bod eu gweithlu yn derbyn mynediad at wasanaethau cynnal sy'n hyrwyddo eu lles.

Yn ystod 2021, tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at heriau recriwtio yn adroddiadau'r asiantaethau partner. Yn benodol, timau diogelu rheng flaen.

## **4.0 Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy'n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd?**

Mae'r Rheolwr Busnes wedi parhau i fynychu'r cyfarfodydd misol gyda Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ochr yn ochr â rheolwyr eraill o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i drafod materion cenedlaethol a lleol.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi ac ynparhau i gyfrannu'n gyson at Fwrdd Prosiect Cenedlaethol Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Yn ogystal, mae gennym gynrychiolwyr o'r holl grwpiau SUSR perthnasol.



Bwrdd Diogelu Annibynnol  
Cenedlaethol Cymru

National Independent  
Safeguarding Board Wales



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Older People's Commissioner for Wales

Rhoddodd yr Arweinydd Diogelu o Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gyflwyniad yng nghyd-gyfarfod BDGC ar 21 Medi. Mewn ymateb mae BGOGC wedi parhau i hybu ymwybyddiaeth mewn perthynas â themâu allweddol mewn Diogelu Oedolion megis Cam-drin Domestig, Cam-drin Ariannol a Hunan-esgeulustod.



Comisiynydd  
Plant Cymru

Children's  
Commissioner  
for Wales

Mewn perthynas â Chomisiynydd Plant Cymru, rydym wedi darparu tystiolaeth mewn perthynas â'r angen i gryfhau'r gofynion cyfreithiol ar gyfer Plant sy'n Derbynn eu Haddysg yn y Cartref ac wedi tynnu sylw at y cynnydd yn niferoedd y trefniadau yn dilyn Covid19.



IICSA

INDEPENDENT INQUIRY  
INTO CHILD SEXUAL ABUSE

Darparodd BDPGC hefyd ymateb mewn perthynas â'r ymgynghoriad ynghylch Ysgolion Annibynnol a'r angen i gryfhau trefniadau diogelu yn yr ysgolion hyn. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych dystiolaeth i ymchwiliad yr ISCSA ynghylch profiadau'r Awdurdod Lleol wrth geisio goruchwyllo pryderon diogelu yn yr Ysgol Annibynnol.



Arolygiaeth Gofal  
Cymru

Care Inspectorate  
Wales

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol hefyd ag AGC. Ymatebodd BDGC i'r cais gan AGC mewn perthynas ag Effeithiolrwydd Trefniadau Diogelu Plant yng Nghymru. Yn ystod y cyfarfod fe wnaethom gyflwyno'r themâu allweddol o adolygiadau ymarfer yng Ngogledd Cymru.

OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

Mynychodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyfarfod Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn a thynnodd sylw at themâu allweddol o safbwynt HGC.



Cheshire West and Chester  
Safeguarding Children  
Partnership

Mae BDGC yn parhau i gynnal cyfarfod blynyddol gyda Bwrdd Diogelu Gorllewin Swydd Gaer. Byddwn yn edrych ar gynnal archwiliad ar y cyd mewn perthynas â phlant a leolir yng Ngogledd Cymru o Orllewin Swydd Gaer.

## 5.0 Unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau.

Dim. Mae'r Bwrdd wedi bod yn llwyddiannus wrth gaffael gwybodaeth heb orfod troi at y mesur hwn, drwy gyfathrebu clir gyda'r asiantaethau perthnasol, yn arbennig y sawl nad ydynt yn bodloni meini prawf 'pobl gymwys' o dan y Ddeddf.

## 6.0 Cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn.

### Cwblhau a Chyhoeddi Polisiâu a Chanllawiau Rhanbarthol

Cwblhawyd nifer o brosiectau allweddol yn 2021-22, gan arwain at gyhoeddi nifer o ganllawiau ymarfer rhanbarthol allweddol.

### Canllawiau Ymarfer amlasiantaeth ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Domestig i Ddiogelu Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth.

Mae'r canllaw ymarfer hwn yn darparu canllawiau ychwanegol i gynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru, yr awdurdodau lleol a, lle bo'n briodol, gwasanaethau iechyd i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion Cam-drin Domestig lle maent yn effeithio ar oedolion ag anghenion gofal a chymorth.

Datblygwyd y canllawiau ymarfer mewn ymateb i bryderon o adolygiad ymarfer ac Adolygiad Dynladdiad Domestig ynghylch y pryder nad oedd yr unigolyn sy'n destun Cam-drin

Domestig wedi'i ystyried yn Oedolyn mewn Perygl.

[!\[\]\(a48045bf840f60e99d28ce32cf91bb81\_img.jpg\) Canllawiau Ymarfer amlasiantaeth ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Domestig i Diogelu Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth.](#)

### Chwilfrydedd Proffesiynol mewn Diogelu Oedolion

Mae chwilfrydedd proffesiynol yn thema sy'n dod i'r amlwg yn yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac adolygiadau eraill a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru, ac adlewyrchir y canfyddiad hwn yn genedlaethol. Mae wedi cael ei gydnabod ers tro fel cysyniad pwysig yn y Gwasanaethau Plant, ond mae yr un mor berthnasol i waith gydag oedolion.

[!\[\]\(397cc4c04b5e7ea225dbaa029a5dee1f\_img.jpg\) Chwilfrydedd Proffesiynol](#)

### Iaith briodol wrth drafod Diamddiffynnedd Plant a Phobl Ifanc

Pan rydym yn disgrifio profiadau plant a phobl ifanc, dylid bob amser herio unrhyw iaith sy'n awgrymu bod plentyn, unigolyn ifanc, neu grŵp o bobl ifanc yn cyfrannu at neu'n gyfrifol am achosion o gamfanteisio neu droseddau y maent wedi'u dioddef.

Dylai ein hiaith bob amser ystyried diffyg asiantaeth neu allu i reoli sefyllfaoedd yn ogystal â chydnabod ac ymateb i drawma o ganlyniad i'r niwed y maent wedi'i brofi. Gall methiant gwasanaethau cymorth i ystyried yr elfennau hyn gyfrannu at yr erledigaeth barhaus yn erbyn plant a phobl ifanc ac atal pobl ifanc a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt rhag ceisio cymorth.

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu staff cymorth, ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau partner sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd a'r gymuned i ddeall yr iaith y dylid ei defnyddio wrth drafod diamddiffynnedd plant / pobl ifanc gan gyfeirio'n benodol at Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio Troseddol ar Blant.

[!\[\]\(9f63f5ec98cc2eddf66038fdc55c1091\_img.jpg\) Iaith briodol wrth drafod Diamddiffynnedd Plant a Phobl Ifanc](#)

### Nodi Profiadau Bywyd Dyddiol Plant, Rhieni a Gofalwyr

Mae rhannu profiadau bywyd dyddiol plentyn/rhiant/gofalwr (bydd rhoddwr gofal yn cael ei ddefnyddio drwy'r adnodd hwn wrth symud ymlaen) yn galluogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd ac yn eu cefnogi, i ddeall sut beth yw 'bod yn eu hesgidiau nhw' ar gyfer diwrnod arferol.

Os gallwn ddeall sut beth yw bywyd mewn gwirionedd drwy eu llygaid hwy, fe fydd gan weithwyr proffesiynol ddarlun mwy eglur o'r anghenion sy'n cael eu bodloni neu nad ydynt yn cael eu bodloni ar gyfer y plentyn yn ogystal ag effaith pryder pro yn cael eu bodloni ar gyfer y plentyn yn ogystal ag effaith pryder proffesiynol am y plentyn. Bydd hyn yn ei dro yn ein cefnogi ni i ddatblygu cynlluniau gofal effeithiol a DOETH i sicrhau y gall y teulu a gweithwyr proffesiynol gydweithio i wella profiad y plentyn. Roedd y canllaw ymarfer mewn ymateb i ddysgu o adolygiadau ymarfer.

[!\[\]\(e088a60aba18ad7619b846dde34cd067\_img.jpg\) Nodi Profiadau Bywyd Dyddiol Plant, Rhieni a Gofalwyr](#)

### Wythnos Genedlaethol Diogelu a Chynhadledd y Bwrdd

Roedd gweithgareddau'r Wythnos Genedlaethol Diogelu yn gallu mynd rhagddynt yn rhithiol gyda Microsoft Teams a Zoom yn cael eu defnyddio i gyflwyno nifer o weithdai i ymarferwyr ar draws y rhanbarth. Cynhaliwyd gweithdai yn ystod yr wythnos yn seiliedig ar ddysgu thematig o Adolygiadau Ymarfer.

Cyflwynwyd y gweminarau canlynol:

- ❖ Gweithdai dysgu ar gyfer darparwyr addysg a blynyddoedd cynnar ar Weithdrefnau Diogelu Plant Cymru.
- ❖ Trosolwg o rôl y Comisiynydd Cam-drin Domestig.
- ❖ Diogelu Trosiannol: glasoed i fyd oedolion.
- ❖ Cynnydd a Chynnydd Cam-drin Sefydliadol.
- ❖ Cynnal a chofnodi asesiadau gallu.
- ❖ Effaith Covid-19 a beth mae wedi ei ddysgu i ni am Ddiogelu Oedolion
- ❖ Cam-drin Plant yn Rhywiol – Yr Ymchwil Diweddaraf.
- ❖ Gweithio gyda thadau ym maes amddiffyn plant/ diogelu Plant sy'n byw gyda Gofalwyr Maeth / Mabwysiadwyr / Gwarcheidwaid Arbennig.

Ym mis Tachwedd 2021 yn ystod yr wythnos Ddiogelu, cynhaliodd y Bwrdd ei gynhadledd ddiogelu flynyddol, thema'r gynhadledd eleni oedd dathlu arfer da.

Rhoddwyd yr enghreifftiau canlynol:

- ❖ Cyngor Gwynedd: Sefydlu a gwaith Tîm Emrallt yn canolbwyntio ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol
- ❖ Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam: Gwaith partneriaeth amlasiantaeth, a chydlynu cynlluniau gofal a chefnogaeth gyda'r Tîm Therapi Aml-Systemig.
- ❖ Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - ymateb Conwy i fynd i'r afael â Cham-drin Rhywiol, menter amlasiantaethol
- ❖ Cyngor Môn: Ynys Sy'n Ystyriol o Drawma.
- ❖ BIPBC – Rheoli Risg Trawma (TRIM)
- ❖ Prawf – Astudiaeth Achos MAPPA

#### Diwrnod Datblygu Bwrdd Rhithiol

Cynhaliwyd diwrnod datblygu'r Bwrdd Rhithiol ym mis Chwefror 2021. Gwnaethom gwblhau'r pecyn cymorth Gwella Hunanasesu ac adolygu'r gofrestr risg. Roedd canlyniad y diwrnod datblygu hwn yn cynnwys:

- ❖ Mewn perthynas â Chynllun Busnes newydd 22-23 byddwn yn canolbwyntio ar ddysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant/MAPF/ adolygiadau Ymarfer Plant Cenedlaethol a'r ddau Adolygiad Achos Difrifol yn Lloegr.
- ❖ Mae'r canfyddiadau cychwynnol o ddadansoddiad thematig o achosion pobl ifanc yng Ngogledd Cymru lle mae'r person ifanc sydd wedi ymwneud â gwasanaethau yn ystod y 12 mis blaenorol, wedi dangos ymddygiad hunan-niweidio aciwt wedi nodi nifer o

feysydd dysgu.

- ❖ Rydym yn adolygu'r pwysau presennol mewn perthynas â Lleoliadau Heb eu Rheoleiddio / galw am leoliadau.
- ❖ O'r SAIT – nodwyd bod angen i'r BDPGC wneud gwaith pellach ar CRhB fel rhan o gynllun gweithredu cenedlaethol ehangach yr Asiantaeth Cynnal Plant.
- ❖ O Gynllun Busnes y llynedd – bydd yn rhaid i ni gyflwyno hyfforddiant ar Adran 5 yn yr haf tra byddwn yn aros am waith grŵp Tasg a Gorffen Bwrdd Prosiect Cynllun Gofodol Cymru wedi'i ddiweddarau ym Mehefin 2022.
- ❖ Fel rhan o'r SAIT – rydym yn cael trafferth dod o hyd i adolygwyr a chadeiryddion ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant. Mae hwn yn bwynt pwysau arbennig gyda'r cynnydd mewn atgyfeiriadau Adolygiad Ymarfer Plant.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y 22-23 yn cynnwys y canlynol:

- ❖ Ymateb yn effeithiol a gwreiddio'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau Ymarfer Oedolion/Plant Rhanbarthol, y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth Rhanbarthol a'r adolygiadau Cenedlaethol a'r DU. (BDGC).
- ❖ Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol: Gwella ymgysylltu ac ymgynghori â phlant ac oedolion mewn perygl, grwpiau agored i niwed, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau (BDGC).
- ❖ Cefnogi gweithrediad cyfreithloni newydd yn 2022 gan gynnwys Rhoi Terfyn ar Gosb Gorfforol a Threfniadau Diogelu Rhyddid ochr yn ochr ag ymateb i gynlluniau gweithredu cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ac atal cam-drin Pobl Hŷn. (BDGC)
- ❖ Parhau i sicrhau dull cadarn, gwydn a chyson o ymdrin ag arferion diogelu yn ystod pandemig Covid-19 (BDGC).

### Ymateb Parhaus i Covid19

Rydym yn parhau i olrhain effaith Covid-19 drwy'r grwpiau cyflawni. Cawsom gyflwyniad ar Effaith Covid-19 gan Dr Laura Pritchard Jones o Brifysgol Keele. Roeddem yn gallu nodi mai un o'r meysydd nad oeddem wedi sylwi arno o'r blaen oedd nifer yr ailatgyfeiriadau yn ystod y cyfnodau clo. Nodwyd hefyd yr angen i barhau i hyrwyddo asesiadau Gofalwyr yn y rhanbarth.

Rydym yn parhau i olrhain effaith Covid-19 drwy'r grwpiau cyflawni. Cawsom gyflwyniad ar Effaith Covid-19 gan Dr Laura Pritchard Jones o Brifysgol Keele. Byddwn yn gallu nodi mai un o'r meysydd nad oeddem wedi sylwi arno o'r blaen oedd nifer yr ailatgyfeiriadau yn ystod y cyfnodau clo. Nodwyd hefyd yr angen i barhau i hyrwyddo asesiadau Gofalwyr yn y rhanbarth.

Bydd yr ailatgyfeiriadau yn ystod Covid19 yn ffocws gwaith archwilio.

Rydym yn parhau i hyrwyddo tudalen we Covid 19. Mae gan y dudalen we amrywiaeth o adnoddau i gefnogi'r cyhoedd ac ymarferwyr.

Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd am y wefan mae:

- ❖ Rwyf wedi cyrchu Gwefan eich Bwrdd Rhanbarthol ac wedi edrych ar eich adran briffio 7 Munud, y mae'n rhaid i mi eich llongyfarch arni. Rwyf wrthi'n diweddarw gwefan Mewnwyd Diogelu'r Bwrdd Iechyd, ac er bod gennym rai o'n sesiynau briffio 7 Munud ein hunain, mae gennym dipyn o ffordd i ddal i fyny â chi.
- ❖ Anhygoel gweld yr holl adnoddau cefnogi bendigedig a gwasanaethau hyn ar gael mewn un lle. Bydd hyn yn sicr yn helpu unrhyw un sy'n dioddef camdriniaeth, edrych ar adrodd, atgyfeirio neu gynghori unigolion mewn sefyllfa gamdriniol, cael mynediad i'r gwasanaethau cywir a all gefnogi eu hanghenion unigol yn gyflym.
- ❖ Casgliad gwych o rwydweithiau cefnogi a sut i greu cysylltiad, hawdd i'w lywio a'i ddeall. Hanfodol yn ystod y cyfnodau hyn o straen a thu hwnt wrth gwrs."

## 7.0 I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd.



### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyfarwyddwr Cyswllt Diogelu (Is-gadeirydd)  
Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Pennaeth Diogelu Plant yw Cadeirydd Grŵp Darparu Ymarfer Plant Conwy a Sir Ddinbych.

Arweiniodd y Swyddog Arweiniol Datblygu Ymarfer Diogelu o'r Adran Diogelu Corfforaethol ar waith cysylltiedig â darparu'r hyfforddiant cyd-ymchwilio diweddaraf yn y rhanbarth.

Maent yn mynychu ac yn cyfrannu at holl is-grwpiau BDGC. Mae'r cymorth gan y Bwrdd Iechyd wedi bod yn hanfodol mewn perthynas â chwblhau adolygiadau ymarfer

Mae'r tîm Diogelu Corfforaethol wedi cynyddu ymwybyddiaeth sefydliadol o'r gydberthynas rhwng adroddiadau am gwympiadau ac adroddiadau am Oedolion mewn Perygl. Cyflawnwyd hyn trwy fynychu a chyflwyno mewn cyfarfodydd Llywodraethu allweddol o fewn y sefydliad, ac ynghyd â goruchwyliaeth diogelu oedolion unigol, grŵp ac ad-hoc.

Mae'r Tîm Diogelu Corfforaethol wedi adolygu'r holl ddysgu o gwympiadau ac wedi bod yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau mewnol ac ar y cyd ag asiantaethau allanol i ddatblygu rhaglen hyfforddi cwympiadau sy'n adlewyrchu cynnwys a gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

Derbyniwyd cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) i dreialu dau o Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig (IDVA) ysbyty, un yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) ac un yn Ysbyty Gwynedd (YG).

Bydd y swyddi hyn yn cael eu rheoli gan yr Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU) a

Gorwel ond byddant yn rhan o Dîm Diogelu Corfforaethol BIPBC.

Bydd yr Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig ysbyty yn darparu cymorth a chyngor uniongyrchol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar drawma i ddiodefwrwr cam-drin domestig sy'n mynychu YGC a chysylltu goroeswyr â chymorth cymunedol tymor hwy. Bydd yr Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig ysbyty yn gweithio'n agos ochr yn ochr â staff ysbytai, gan ddarparu cyngor arbenigol a chodi ymwybyddiaeth i gefnogi datgelu cam-drin domestig.

Mae'r rôl yn cynnwys grymuso goroeswyr i gynyddu eu hopsiynau, gwneud dewisiadau/penderfyniadau cadarnhaol, cynyddu eu hyder, eu diogelwch a'u hadferiad.

Dechreuodd yr Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig canolog yn ei swydd ym mis Chwefror 2022 ac mae ei phresenoldeb yn mynd o nerth i nerth. Disgwylir i Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig y gorllewin ddechrau yn ei swydd ym mis Mai 2022. Bydd y peilot yn cael ei werthuso.

### **Enghraifft Arfer Da**

#### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

Mae Diogelu Corfforaethol wedi bod yn rhagweithiol wrth godi ymwybyddiaeth / hyfforddiant ynghylch y Ddeddf newydd.

Cyflawnwyd hyn bellach drwy sefydlu Grŵp Llywio Strategol yn rhagweithiol a oedd yn cynnwys yr holl aelodau perthnasol o feysydd gwasanaeth o fewn BIPBC, a datblygu cynllun gweithredu. Roedd camau gweithredu allweddol yn cynnwys: -

- ❖ Rhannu adnoddau Llywodraeth Cymru drwy dudalen we BetsiNet - Diogelu.
- ❖ Datblygu sesiwn frifio 7 munud.
- ❖ Amlygwyd gwybodaeth yn y Bwletin Diogelu.
- ❖ Sicrhau bod pecynnau hyfforddi plant mewn perygl wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r newid hanesyddol hwn mewn deddfwriaeth.
- ❖ Sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chodi yn yr adran oruchwylio Diogelu ar draws Ch4 (2021/22).



#### Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu BDPGC a BDOGC.

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd o'r Gwasanaethau Plant wedi chwarae rhan arwyddocaol wrth gefnogi'r is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant. Yn ychwanegol, mae dau swyddog diogelu o'r awdurdod yn adolygwyr ar gyfer yr adolygiadau ymarfer plant cyfredol.

Y Rheolwr Gwasanaeth Oedolion hefyd yw Cadeirydd y grŵp darparu oedolion lleol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi dangos ymrwymiad i ddysgu o adolygiadau drwy fuddsoddi adnoddau

mewn digwyddiadau dysgu.

Gan weithio o fewn y cyfyngiadau newidiol fe wnaethom barhau i ymateb i blant a'u teuluoedd fel unigolion mewn amgylchiadau unigryw. Fe wnaethom addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth (TG) cafodd sut rydym yn cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill ei wella.

Ceisiwyd persbectif y defnyddiwr o ran cynadleddau amddiffyn plant rhithiol ac mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod sylfaen gadarnhaol ar gyfer adeiladu model hybrid o gynadledda pan fydd cyfyngiadau unwaith eto'n cael eu lleddfu. Dywedodd defnyddwyr wrthym fod cynadleddau Rhithiol yn gweithio'n iawn ar y cyfan. Roedd yn well gan rai y model hwn, cyn belled â bod gan bawb allu fideo. Y brif neges oedd bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a thegwch. Y bwriad yw cynnal rhai o'r ffyrdd newydd o gysylltu â phobl a chynnal cyfathrebu trwy TG hyd yn oed wrth i fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio wyneb yn wyneb ddychwelyd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi sefydlu tîm ymroddedig o 2 Aseswr Lles Gorau Llawn amser. Mae'r ddau yn ymarferwyr profiadol a medrus. Rydym wedi gweithio'n galed i leihau'r rhestr aros ar gyfer asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Llys Gwarchod. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal capasiti dros sefydliad drwy weithiwr asiantaeth: gan ddarparu trefniant interim gwerthfawr: dod â phrofiad ac egni, gwydnwch a chapasiti wrth i geisiadau am asesiadau ac adolygiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) dyfu. Rydym wedi manteisio ar gyfleoedd am gyllid ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti (trwy asiantaeth o Aseswyr Budd Pennaf o ffynonellau trydydd parti) i fynd i'r afael â'r rhestr aros am awdurdodiad safonol.

### **Adborth AGC**

*“roedd tystiolaeth o ddealltwriaeth dda a gweithrediad effeithiol o Weithdrefnau Diogelu Cymru mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed. Gwelsom dystiolaeth o ofynion statudol yn cael eu bodloni, gwaith partneriaeth effeithiol i ddiogelu plant, a thystiolaeth o ddadansoddiad da i asesu lefel y risg.”*



### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg yw Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Gweithlu yw Cadeirydd y Cyd Grŵp Datblygu Gweithlu a Hyfforddiant.

Mae Conwy hefyd yn darparu Ymgynghorwyr Cyfreithiol ar gyfer y ddau Fwrdd.

Mae gan yr awdurdod lleol gynrychiolwyr yn yr holl is-grwpiau perthnasol. Mae cefnogaeth y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod gwersi o adolygiadau achos mewnol wedi'u rhannu ar draws y rhanbarth.

Mae Conwy bellach wedi sefydlu tîm Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) gyda Cham 1 yn dechrau ym mis Mehefin 2021, yn ystod y pandemig. Mae'r tîm yn gweithio'n rhithiol ac yn y lle cyntaf canolbwyntiwyd ar wreiddio diogelu oedolion. Ym mis Tachwedd 2021 fe wnaethom gyflwyno Gwasanaeth Plant i MASH.

Mae cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru nid yn unig wedi caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyflym ond mae hefyd wedi cynnig y cyfle i'r ddwy asiantaeth asesu'r risg a'r pryderon a gwneud penderfyniadau ar y cyd yn ogystal ag ystyried cynnig ymyrraeth gydlynol. Mae MASH wedi caniatáu ar gyfer **gwneud penderfyniadau Gwybodus a Lleihau oedi**, oherwydd bod Rheolwyr Tîm a Gweithwyr Cymdeithasol penodedig yn gweithio ochr yn ochr â'r Ditectif Ringyll ac ymchwilydd yr Heddlu, mae wedi arwain at rannu gwybodaeth ar unwaith ar ôl derbyn atgyfeiriad/adroddiad. Mae goruchwyliaeth MASH o'r adroddiadau CID16 a Diogelu hefyd wedi rhoi cyfle i nodi pryderon 'ailadrodd' ar gyfer yr un unigolion.

Mae'r Data cyfredol a gasglwyd gan y tîm yr Adain Gwybodaeth Rheoli yn dangos **cynnydd yn yr amseroldeb** ar gyfer sgrinio adroddiadau diogelu. Mae hyn o ganlyniad i'r dull symlach o gasglu'r wybodaeth berthnasol a'r gallu i gynnal cyfarfodydd strategaeth cyflym gyda'r Ditectif Ringyll MASH.

Mae'r tîm MASH bellach yn symud i Gam II lle rydym yn gobeithio cael ein partneriaid allweddol yn rhan, mae'r rhain yn cynnwys Iechyd, Addysg, Tai, Diogelu'r Cyhoedd, y Gwasanaeth Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid.

### **Enghraifft Arfer Da**

Yn dilyn derbyn gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern Genedlaethol ym mis Medi 2021, daeth yn amlwg bod pryderon bod Asiantaeth Gofal Cymdeithasol newydd ei sefydlu yn ardal Conwy yn darparu gweithwyr gofal asiantaeth a oedd yn cyflwyno eu bod yn ddioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, cynullwyd cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth llawn gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Iechyd, Heddlu Gogledd Cymru, AGC a Chyngor Sir Ddinbych.

Roedd cyfarfodydd cychwynol yn gudd ac yn sensitif i'r ffaith y byddai unrhyw ymholiadau neu ymyriadau wedi'u hamseru'n wael wedi peryglu ymholiadau ac ymchwiliadau posibl gan yr heddlu. Ar hyn o bryd mae'r achos yn parhau i gael ei ymchwilio gan yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA), felly mae'r camau isod yn amlygu'r gwaith a wnaed hyd yma gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid.

Mae'r camau a gymerwyd hyd yma ar draws asiantaethau yn cynnwys:

1. Ymholiadau gyda darparwyr a chartrefi gofal o'u defnydd o'r asiantaeth dan sylw, i ddechrau trwy ddulliau cudd a sensitif.
2. Cyfathrebu â phob darparwr i'w hatgoffa o'u dyletswyddau a bod yn ystyriol o sicrhau bod arferion recriwtio diogel yn cael eu dilyn bob amser wrth ddefnyddio staff asiantaeth.
3. Cynnal arolygiaeth diogelu cartrefi gofal yn yr ardal i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad oedd preswylwyr yn cael eu rhoi mewn perygl o ganlyniad i'r staff asiantaeth a oedd yn darparu gofal.

4. Partneriaid yn gweithio'n agos pan ddechreuodd y GLAA eu gweithrediadau.
5. Wedi cymryd camau gweithredu clir gyda chefnogaeth y Tîm Pobl Ddiamddiffyn i gefnogi a chynghori'r dioddefwyr yn yr achos.
6. Cychwyn a datblygu cyfarfodydd Adran 5 Swyddi o Ymddiriedaeth.
7. Cynnal sesiwn ôl-drafod i gasglu'r hyn a ddysgwyd o'r broses

Er bod y broses yn heriol ac yn rhywbeth nad oedd llawer o'r ymarferwyr dan sylw erioed wedi gorfod delio ag ef yn weithredol o'r blaen, roedd y broses yn darparu arfer da allweddol a chyfleoedd dysgu.



[Cyngor Sir Ddinbych](#)

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau yn mynychu BDPGC a BDOGC.

Y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd Ymarfer yw Cadeirydd y grŵp Polisi a Gweithdrefnau Plant.

Mae gan yr awdurdod lleol gynrychiolwyr yn yr holl is-grwpiau perthnasol.

**Cyfarfodydd Cyswllt Cyn-Geni** – Mae hwn wedi bod yn fenter newydd a ddatblygwyd gan y Rheolwr o fewn y Gwasanaeth Ymyrraeth i adolygu asesiadau cyn-geni. Mae hwn yn gyfarfod amlasiantaeth gydag ymarferwyr lechyd blaenllaw a phartneriaid i fonitro ac adolygu asesiadau cyn-geni sydd ar agor i Sir Ddinbych. Y nod yw gweithio ar y cyd mewn perthynas ag achosion cyn-geni gan sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cael eu cynnig mewn modd amserol i frwydro yn erbyn pryderon diogelu ac atal rhag gwaethygu i brosesau statudol. Yng Ngrŵp Cyflawni Lleol Conwy a Sir Ddinbych, rhannodd yr Arweinydd Diogelu Bydwreigiaeth y fenter i'r grŵp. Mae awdurdodau cyfagos wedi mynegi diddordeb mewn gwneud rhywbeth tebyg

Mae archwiliadau ansawdd chwarterol yn parhau i gael eu cynnal mewn perthynas â Diogelu Oedolion. Roedd tystiolaeth bod yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn cael ei gefnogi a'i gynnwys yn y gwaith o ddeall neu adolygu canlyniadau'r broses ddiogelu a bod eiriolaeth yn cael ei hystyried a'i chynnwys pan oedd angen. Roedd canlyniadau personol yn ganolog i'r atebion.

### **Enghraifft Arfer Da**

Bu heriau sylweddol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Rhyl, roedd rhywfaint o'r ymddygiad hwn yn gysylltiedig â phryderon CRhB ac yn ymwneud â grŵp penodol o bobl ifanc. Mae cydweithio agos a pharhaus gyda'n cydweithwyr yn Heddlu Gogledd Cymru, Cyfiawnder Ieuencid a Gwasanaethau Ieuencid wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i'r mwyafrif o'r bobl ifanc hyn.

Roedd hwn yn fater cymhleth ac eang, trwy gydweithio i rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau ar y cyd i ymgysylltu â'r grŵp hwn rydym wedi rhoi newid ar waith ac wedi diogelu'r bobl ifanc hyn yn effeithiol. Mae gweithio ar y cyd hefyd wedi caniatáu inni roi sicrwydd i'r gymuned, busnesau lleol ac Aelodau bod dull cydlynol o fynd i'r afael â'r materion hyn yn parhau. Er bod gwaith i'w wneud o hyd ar y mater, bu effaith gadarnhaol eisoes ar nifer o bobl ifanc.



## Cyngor Sir y Fflint

Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol yw  
Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Yr Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu yw Cadeirydd Grŵp Darparu Diogelu Oedolion Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae gan yr awdurdod lleol gynrychiolwyr yn yr holl is-grwpiau perthnasol.

Yn ystod 2021/22, buom yn archwilio sut rydym yn ehangu ein prosesau MET (Ar Goll, Wedi'i Gamfanteisio neu wedi'i Fasnachu) i ymgorffori egwyddorion diogelu cyd-destunol. Yn dilyn ymchwil, ymarferion mapio ac ymgynghori â phartneriaid rydym wedi datblygu cynigion sy'n adeiladu ar ein model Canolbwynt Cymorth Cynnar. Bydd y model arfaethedig yn darparu dull amlasiantaeth o gefnogi, datblygu a goruchwyllo ymyriadau sy'n cynyddu lles ac amddiffyniad sy'n cyd-fynd â niwed/risgiau sy'n codi y tu allan i gartref y teulu. Mae'r model wedi'i gynllunio i nodi, monitro a herio effeithiolrwydd gweithgareddau i fynd i'r afael â'r niwed/risgiau ac ystyried:

- ❖ Pryderon diogelu allweddol.
- ❖ Mapio cymheiriaid / ardal (ECO MAP).
- ❖ Lleoliadau a chyd-destunau sy'n peri pryder.
- ❖ Cynllun ymyrryd.
- ❖ Dyddiad adolygu.

Gweithiodd y Timau Oedolion Mewn Perygl yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn agos â chydweithwyr mewn adrannau ac asiantaethau eraill i adnabod y bobl hynny a oedd yn y perygl mwyaf o ddisgyn rhwng y craciau – y rhai hynny nad ydynt yn derbyn cymorth yn y cartref ac sydd o bosibl yn llai abl i addasu i ffyrdd newydd o fyw yn ystod cyfnod o argyfwng. Ar ôl eu nodi, cysylltwyd â phobl ac aseswyd eu hanghenion gofal a chymorth.

Mae'r system gwybodaeth cleientiaid yn sbarduno'r angen i ystyried eiriolaeth yn ystod y drafodaeth strategaeth a'r cam ymholi a126. Ystyrir eiriolaeth annibynnol bob amser yn absenoldeb aelod addas o'r teulu sy'n eirioli ar ran person unigol.

### Enghraifft Arfer Da

Derbyniodd Theatr Clwyd a phartneriaid Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint 'ganmoliaeth uchel' am eu prosiect Lleisiau Clwyd Voices of the Future a gynhaliwyd rhwng Chwefror 2021 a Mehefin 2021. Cafwyd y gydnabyddiaeth gan Wobrau blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru.

Sefydlwyd 'Lleisiau Clwyd Voices' fel arbrawf tymor hwy i bosibiliadau a chynaliadwyedd y berthynas waith hon yn y dyfodol. Ariannwyd y prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru, drwy grant Cysylltu a Ffynnu.

Roedd pobl ifanc yn cael dewis eu hunain a'u hatgyfeirio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol o bob rhan o Sir y Fflint. Mae gan lawer fywydau cartref anodd, yn ofalwyr ifanc neu ag anghenion dysgu ychwanegol. Cyflogwyd deg gweithiwr llawrydd lleol o amrywiaeth o ddisgyblaethau: actorion, artist gweledol, coreograffydd, cerddor, cyfarwyddwr, canwr, cyfarwyddwr ymladd, awdur a dau reolwr llwyfan.

Cafodd Lleisiau Clwyd Voices effaith sylweddol ar fywydau'r bobl ifanc a'r artistiaid dan sylw. Roedd y ddau grŵp yn cydnabod y manteision a ddaeth i'w lles cyffredinol a'u hiechyd meddwl. Er bod y cyfnodau clo wedi arwain at unigrwydd, iselder a phryder am y dyfodol, roedd y prosiect yn galluogi cysylltiad cymdeithasol trwy weithgareddau creadigol personol diogel. Darparodd hyn ymdeimlad o obaith, positifrwydd, a dihangfa i'r ddau grŵp.



### Cyngor Gwynedd

Mae'r ddau Bennaeth Gwasanaeth yn mynychu'r byrddau priodol.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth (Plant) wedi parhau i gynrychioli'r Bwrdd mewn perthynas â Grŵp Prosiect Cenedlaethol i ddatblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae gan yr awdurdod lleol gynrychiolwyr yn yr holl is-grwpiau perthnasol.

Mae'r VARM wedi ei sefydlu yng Ngwynedd o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n fforwm effeithiol ar gyfer trafod unigolion na fyddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer diogelu ond sy'n ddiameddiffyn o fewn ein cymunedau.

Mae **Amddiffyn Plant Effeithiol** yn fodel o ymarfer a ddatblygwyd yng Ngwynedd i wella ymarfer ym maes amddiffyn plant. Mae wedi cael ei gefnogi gan Fwrdd Trawsnewid Rhanbarthol Gogledd Cymru fel menter ymarfer arloesol gyda'r potensial i'w gyflwyno mewn meysydd eraill. Mae'r prosiect wedi'i werthuso a barnwyd ei fod wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu dulliau newydd o amddiffyn plant. Mae'n dwyn ynghyd sawl elfen o arfer da ac yn defnyddio rôl Mentor Ymarfer i ymgorffori sgiliau a hyfforddiant newydd mewn ymarfer.

### Enghraifft Arfer Da

Mae enwau wedi cael eu newid.

Mae Katie yn 11 mlwydd oed. Mae hi'n byw gyda'i nain a thaid sy'n byw yn agos at ei mam, Sheena.

Daeth mam Katie i sylw'r Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd ei bod yn delio mewn cyffuriau. Cafodd ei harestio yn cario cyffuriau yn y car. Roedd hi dan ddylanwad pan gafodd ei stopio ac roedd Katie yn y car.

Roedd Sheena yn defnyddio sylweddau, yn delio, ac yn mynd â Katie gyda hi o dŷ i dŷ. Nid oedd unrhyw ystyriaeth i ddiogelwch Katie. Roedd eu perthynas yn anodd iawn gyda mam Katie yn ei beio am bethau ac yn dweud pethau niweidiol pan oedd hi dan ddylanwad cyffuriau. Roedd y gofal a ddarparwyd yn anghyson, gan ei rhoi mewn perygl o niwed corfforol ac emosiynol. Mae hi wedi byw gyda'i nain a'i thaid ers sawl mis.

Yn y Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol, nodwyd tri maes newid. Roedd y rhain yn gysylltiedig â lleihau'r risg o niwed sylweddol. Y prif ffocws oedd i Katie gael perthynas ddiogel gyda'i mam. Roedd tri cham gweithredu a gyfrannodd at hyn. I Sheena osod anghenion Katie o flaen ei rhai ei hun, iddi weithio gyda gweithiwr camdefnyddio sylweddau a bod yn onest ag asiantaethau.

Fel rhan o waith y Grŵp Craidd, bu Sheena a Katie yn ymwneud ag archwilio'r meysydd newid a pha gamau sydd angen eu cymryd er mwyn i ofal fod yn 'ddigon da'. Fe wnaethon nhw dorri pethau i lawr yn gamau hylaw. Ar y dechrau, nid oedd Sheena yn derbyn bod ei hymddygiad yn rhoi Katie mewn perygl na bod ei geiriau a'i hymatebion yn brifo ac yn effeithio ar Katie.

Dros amser, datblygodd y berthynas gyda'r gweithiwr cymdeithasol a chynyddodd ymddiriedaeth. Roedd hyn yn caniatáu i'r gwaith amddiffyn plant symud ymlaen gyda ffocws ar newid. I'r fam, roedd bod yn glir ynghylch y meysydd yr oedd angen eu newid yn dod â rhywfaint o eglurder. Gwyddai beth a ddisgwyliid ganddi. Cymerodd ran weithredol yn y Grŵp Craidd ac yn y modd y datblygwyd ei 'Camau at Newid'.

Ar gyfer y plentyn, roedd hi'n gallu defnyddio'r un offer mewn sesiynau gyda'r gweithiwr cymdeithasol i siarad am sut roedd y newidiadau hyn yn trosi i'w phrofiad bywyd go iawn a bod pethau'n gwella o'i safbwynt hi. Roedd hi'n rhan weithredol o'r cynllun amddiffyn plant er na fynychodd y Grŵp Craidd ac roedd yn gallu helpu i ddiffinio beth fyddai'n ofal 'digon da'.

Roedd y 'ffocws ar newid' yn nodi'n glir beth oedd angen ei newid i leihau niwed sylweddol. Defnyddiwyd yr offeryn 'Camau at Newid' i strwythuro'r 'sgwrs newid' gyda Sheena ac fe helpodd y sgorio i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i ofal 'digon da'. Trwy ran weithredol Katie, roeddem hefyd yn gallu gwirio bod y newidiadau hyn yn arwain at welliannau yn ei phrofiadau o ddydd i ddydd; nid dim ond ochr y fam o sut yr oedd hi'n gweld y sefyllfa.

Dywedodd y fam: "Roedd yn egluro pethau'n syml, ac yn hawdd i'w ddilyn" ac "Roeddwn yn gwybod yn union bryd hynny beth i'w wneud i wella fy sgôr a chyflawni'r nodau hynny a nodwyd gennym yn y cynllun... gallai pawb ei ddilyn yn hawdd...gwnaeth i mi deimlo fy mod wedi fy ngrymuso."



### **Wrecsam**

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu'r Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion.

Bydd y Pennaeth Gwasanaeth, Diogelu Oedolion ac Iechyd Meddwl yn cynrychioli BDOGC ar y Grŵp Tasg a Gorffen arfaethedig ar Adran Pump o'r gweithdrefnau.

Y Pennaeth Gwasanaeth Gwasanaethau Plant hefyd yw Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Plant lleol.

Mae gan yr awdurdod lleol gynrychiolwyr yn yr holl is-grwpiau perthnasol.

Er mwyn cryfhau trefniadau diogelu yn ein Un Pwynt Mynediad (Pwynt Mynediad i Blant), mae prosiect i gyflwyno presenoldeb heddlu penodol o fewn Un Pwynt Mynediad wedi'i sefydlu ac mae bron wedi'i gwblhau. Mae'r prosiect yn nodi Ditectif Ringyll ac Ymchwilydd Heddlu sydd â phresenoldeb rhithiol neu bersonol yn yr Un Pwynt Mynediad. Pwrpas y prosiect yw cryfhau gwaith partneriaeth a chyfathrebu rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Plant a bydd yn sicrhau bod Trafodaethau Strategaeth a Chyfarfodydd Strategaeth yn cael eu cynnal mewn modd amserol ac effeithlon.

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi profi cynnydd mewn cysylltiadau/atgyfeiriadau yn ymwneud â hunan-esgeulustod a chelcio sydd wedi arwain at Un Pwynt Mynediad Oedolion yn dod yn fwy hyfedr ac yn tynnu oddi ar y polisïau rhanbarthol mewn achosion hunan-esgeuluso cymhleth, rhai achosion sydd wedi gorfod cael cefnogaeth cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol ac wedi arwain at heriau i asiantaethau eraill.

### **Enghraifft Arfer Da**

Mae gwaith y Tîm Diogelu Oedolion a'u hymagwedd ragweithiol o nodi themâu a thueddiadau mewn cysylltiadau/ atgyfeiriadau Oedolion mewn Perygl wedi arwain at nodi'n gynnar nifer yr atgyfeiriadau cynyddol gan ddarparwr penodol. Cynhaliodd y tîm gyfarfod Gwasanaeth sy'n Peri Pryder gydag uwch aelodau o sefydliad y darparwr i fynd i'r afael â phatrwm y pryderon hyn, cymerwyd camau unioni ac o ganlyniad, canmolwyd y tîm ar eu harfer gan yr arolygiaeth a phartneriaid amlasiantaeth.



### [Heddlu Gogledd Cymru](#)

Ditectif Uwcharolygydd yr Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yw Is-gadeirydd BDPGC ac mae hefyd yn mynychu BDOGC.

Mae nifer o swyddogion o'r uned yn cadeirio adolygiadau ymarfer ar ran BDGC.

Mae Swyddogion Gweithlu Academi Trosedd yr Heddlu wedi cefnogi BDGC i ddarparu'r cyrsiau Hyfforddiant Ymchwilio a Sicrhau'r Dystiolaeth Orau.

Maent yn mynychu ac yn cyfrannu at holl is-grwpiau BDGC.

Mae Archwiliadau Cymheiriaid wedi gwella ansawdd ymchwiliadau Oedolion mewn Perygl. Mae cyfarfodydd Ailadrodd Galw wedi'u cyflwyno drwy'r sefydliad gydag asiantaethau partner sydd wedi galluogi mynd i'r afael â diogelu mewn modd mwy amserol a chynhyrchiol. Mae brysbennu twyll wedi darparu un porth ar gyfer yr holl achosion o dwyll a adroddir i Ogledd Cymru.

Mae sesiynau hyfforddi hefyd wedi bod yn llawer mwy hygyrch. Er enghraifft, yn ddiweddar

rydym wedi cynnal digwyddiad hyfforddi PRUDIC ar-lein a ddarperir gan 2 Wish. Gwelodd hyn nifer o asiantaethau partner yn mewngofnodi a thua 60 o bobl yn bresennol. Roedd hefyd yn fuddiol gan fod yr hyfforddiant wedi'i recordio ac felly'n caniatáu'r posibilrwydd o rannu'r hyfforddiant gyda'r rhai na allent fynychu. Roeddent yn gallu gwyllo pan oedd yn gyfleus iddynt, gan gynyddu'r gynulleidfa darged ymhellach.

Mae cynnydd mewn hyfforddiant amlasiantaeth wedi arwain at gynnydd mewn cydweithio a "bondio tîm" yn ogystal ag ystwythder gan ganiatáu mannau gweithio a rennir i gynyddu perthnasoedd gwaith a datrys problemau. Mae cynllun peilot MASH Conwy wedi bod yn enghraifft o hyn.

### **Enghraifft Arfer Da**

Mae Gweithgareddau Ymgysylltu a wneir gan heddluoedd, yn sicrhau bod gan blant lais. Ceisir llais plant a phobl ifanc yn weithredol i hysbysu plismona lleol.

Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc - Mae model y Grŵp Ymgynghori leuenctid bellach wedi'i gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ac wedi'i gymeradwyo'n llawn.

Mae Cylch Gorchwyl y grŵp wedi'i ddrafftio i aros am adolygiad. Mae gwaith yn cael ei wneud yn awr i symud ymlaen â recriwtio ar gyfer y Llysgenhadon leuenctid.

Fforwm Ymgysylltu Pobl Ifanc - Mae'r Prif Gwnstabl a CHTh bellach wedi cyfarfod â 2 x grŵp o ddisgyblion 6ed dosbarth yng Nghonwy a Gwynedd, mae trydydd sesiwn gyda disgyblion 6ed Dosbarth Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf cyn diwedd y flwyddyn academaidd hon. Mae'r Prif Gwnstabl a CHTh wedi cytuno y cynllunnir ar gyfer 3 sir arall y flwyddyn academaidd nesaf.

Lansiwyd Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru - Gogledd Cymru'n Siarad - ym mis Mawrth i nodi'r tri phrif fater cymunedol ar gyfer pob ardal. Mae hyn yn cefnogi'r Strategaeth Plismona Bro sy'n ffurfio rhan o Gynllun Heddlu a Throseddur CHTh a gosod blaenoriaethau lleol chwarterol. Bellach mae gennym fwy na 9000 o bobl wedi ymuno â'r Rhybudd Cymunedol ac mae ffocws yn parhau ar gynyddu'r ymgysylltiad hwnnw ar draws yr ardaloedd. Cwblhawyd 3000 o arolygon ac rydym yn ceisio cynyddu ar y ffigur hwn. Mae gennym bellach flaenoriaethau clir ym mhob ardal a osodwyd gan y gymuned y mae'r ardaloedd yn gweithio arnynt ac yn adrodd yn ôl i'r gymuned trwy'r Rhybudd Cymunedol.

Rhaglen Heddlu Bach - bydd 6 x ysgol gynradd yn cychwyn ar y sesiynau Rhaglen Heddlu Bach ar ôl y Pasg – 1 ysgol o bob sir. Bydd y 6 lleoliad sy'n weddill yn dechrau yn y flwyddyn academaidd nesaf gyda'u disgyblion blwyddyn 5 newydd. Mae llyfr gweithgareddau wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei roi i bob plentyn sy'n cymryd rhan yn y cynllun, bydd yn rhoi cyfle i'r plant gynnwys barn eu ffrindiau a'u teulu ar y rhaglen Heddlu Bach a rhoi'r newyddion diweddaraf i rieni a gofalwyr am y gwaith sy'n cael ei wneud.

Swyddog Ymgysylltu leuenctid - Mae'r Swyddog Ymgysylltu leuenctid a Swyddogion Heddlu Ysgolion wedi bod yn cynnal sesiynau ymgynghori gyda phobl ifanc mewn colegau lleol a grwpiau 6ed dosbarth i gael barn/pryderon a phrofiadau byw o amgylch VAWG – Cysylltu â RASASC Cymru, Hyfforddiant TACTA a Phrifysgol Bangor gan ddarparu adborth i gefnogi'r pecyn addysgol newydd 'Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol'.

Mae'r wers gam yn nes at ei chyflwyno, mae'r hyfforddiant i hwyluswyr wedi'i drefnu ar gyfer 12 Ebrill a chynigir treialu'r sesiynau mewn dau leoliad 6ed dosbarth ddechrau mis Mai.

Gwasanaeth  
Prawf  
Probation  
Service



### Y Gwasanaeth Prawf

Mae Pennaeth Darpariaeth Leol Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru yn mynychu BDPGC ac yn sicrhau presenoldeb priodol ar y Bwrdd Oedolion.

Cyflawnodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol weithgarwch drwy 'Fodelau Cyflawni Eithriadol', roedd y rhain yn cwmpasu pob agwedd ar ein darpariaeth prawf i sicrhau bod unrhyw amhariad gweithredol yn cael ei leihau.

Egwyddorion sylfaenol y MCE oedd sicrhau canolbwynt clir ar warchod y cyhoedd a rheoli ein hachosion mwyaf perygl a chymhleth, tra hefyd yn sicrhau diogelwch ein staff, defnyddwyr gwasanaeth, dioddefwyr a'r cyhoedd.

### Adborth o'r Arolygiad

Mae darpariaeth a gwelliant parhaus y **Fframwaith MAPP**A yn ystod y 12 mis diwethaf yn gyflawniad allweddol i'r Gwasanaeth Prawf a'i bartneriaid strategol allweddol.

Nododd MAPP Thematig ar y cyd gan HMIP/HMIC a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngogledd Cymru nifer o feysydd arfer da a gwnaeth sylwadau ar y perthnasoedd gwaith cryf wrth gyflawni ein dyletswyddau statudol.



### Fforwm Gofal Cymru

Mae Prif Weithredwr Fforwm Gofal Cymru yn mynychu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ac yn cyfrannu at Grŵp Polisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Mae cynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru yn aelodau gweithredol o Grwpiau Darparu Diogelu Oedolion BDOGC ar draws y rhanbarth.



### Barnardo's a'r NSPCC

Mae'r ddau sefydliad wedi darparu cefnogaeth amhrisiadwy i BDPGC. Mae Aelod o Fwrdd Barnardo's hefyd yn Gadeirydd y Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant.





Mae'r NSPCC hefyd wedi cynorthwyo i ddarparu hyfforddiant mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn amlygu'r newidiadau mewn arferion ynglŷn â Diogelu Plant.

## Presenoldeb ar y Byrddau:

Mae'r cydlynwyr Busnes wedi parhau i olrhain presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Byrddau a hefyd yng nghyfarfodydd yr is-grwpiau. Rydym wedi parhau i weld presenoldeb da mewn cyfarfodydd Bwrdd. Rydym yn cydnabod nad oedd bob amser yn bosibl i uwch swyddogion fynychu cyfarfodydd Bwrdd oherwydd galwadau gwaith ond byddai cynrychiolydd o'r sefydliad yn dirprwyo.

## Presenoldeb ar y Byrddau rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022




## 8.0 Aseiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau.

### Cyllid

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi defnyddio'r Fformiwla Ariannu Cenedlaethol i asesu a dod o hyd i gyllid ariannol blynyddol gan bartneriaid statudol y bwrdd. Mae'r siart isod yn dangos sut mae'r bwrdd wedi gwneud defnydd o'i hadnoddau ariannol yng nghyd -destun incwm, gwariant a chyfraniadau partner yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

### Gwariant 2020/21 Cyfanswm: £ 271,592.00



### Yr Uned Fusnes

Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru		
Cydlynnydd Busnes BDOGC	Cydlynnydd Busnes BDOPC	Swyddog Gweinyddol Diogelu Rhanbarthol

Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant wedi mynd ar gostau staffio. Rydym yn nodi bod gennym gyfnod o bedwar mis heb Weinyddwr Diogelu. Rydym wedi ei chael yn anodd llenwi'r swydd wag hon. Mae hyn wedi rhoi rhywfaint o bwysau ychwanegol ar yr uned, oherwydd yn aml mae Cydlynwyr Busnes wedi ymgymryd â rôl gweinyddwr.

### Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Plant

Yn adroddiad eleni rydym wedi cynnwys cost comisiynu adolygwyr i gynnal adolygiadau ymarfer a hefyd MAPF. Oherwydd y pwysau presennol ar y gweithlu, rydym wedi ei chael yn

anodd ymgysylltu ag adolygwyr mewnol yn y rhanbarth. Fe wnaethom gomisiynu cwrs hyfforddi mewnol pellach ar gyfer adolygwyr.

Yn ystod y flwyddyn roedd gennym y lefelau canlynol o weithgaredd mewn perthynas ag adolygiadau:

Nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant wedi'u comisiynu yn 21/22	Nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant wedi'u cyhoeddi yn ystod 21/22	Nifer y MAPF a gynhaliwyd	Themâu allweddol
4	0	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Gallu i Fagu Plant</li> <li>❖ Cydymffurfiaeth Gudd</li> <li>❖ Diffyg lleoliadau addas</li> <li>❖ Ystyried llais y person ifanc</li> <li>❖ Deall anghenion y plentyn; anghenion plentyn sy'n hunan-niweidio, anghenion plentyn a allai gael ei fwlio</li> <li>❖ Ymddieithrio â gwasanaethau; methu apwyntiadau/ colli'r ysgol</li> <li>❖ Iechyd meddwl rhieni</li> <li>❖ Cyfyngiadau gweithio yn ystod y pandemig</li> <li>❖ Grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd</li> <li>❖ Cyfathrebu a Dogfennaeth Aml-asiantaeth</li> <li>❖ Esgeulustod / amodau cartref</li> </ul>

Nifer o Adolygiadau Ymarfer Oedolion wedi eu comisiynu yn ystod 21/22	Nifer o Adolygiadau Ymarfer Oedolion wedi eu cyhoeddi yn ystod 21/22	Nifer y MAPF a gynhaliwyd	Themâu allweddol
1	0	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Pontio o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion</li> <li>❖ Ymyriadau cyfnodol gan asiantaethau.</li> <li>❖ Ymwybyddiaeth o hanes unigolyn mewn perthynas â risg o ran camfanteisio rhywiol a throseddol.</li> <li>❖ Rhieni yn defnyddio cyffuriau ac alcohol.</li> <li>❖ Iaith y plentyn/person ifanc.</li> <li>❖ Diffyg dadansoddi o ran gwneud penderfyniadau.</li> </ul>

## Gwefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Mae gwefan y Byrddau Diogelu'n dal i harneisio adnoddau er mwyn gofalu fod ymarferwyr a'r cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau sydd ar fin digwydd i bolisiau, llinellau cymorth newydd a gwybodaeth gyffredinol a gasglwyd o bob rhan Cymru a gweddill y DU.



## Negeseuon Allweddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru


Mae negeseuon allweddol cyfarfodydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi parhau i gael eu lledaenu drwy'r llyfrgell adnoddau ynghyd â'r adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd y llynedd a Chynlluniau Busnes BDGC ar gyfer 2022/23.

### Briffiau 7 Munud

Roedd y defnydd o'r cyflwyniadau briffio 7 munud byr i amlygu materion a themâu drwy gydol y flwyddyn wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae cyfanswm o 160 o sesiynau briffio ar gael ar y wefan ar hyn o bryd.

Crëwyd nifer o sesiynau briffio ar gyfer wythnosau Thema Cenedlaethol penodol. Er enghraifft, yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ac wythnos Ymwybyddiaeth Dementia fe wnaethom greu'r briffiau 7 munud canlynol.



### Sesiynau Briffio 7 Munud - Adnoddau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu, cawsom dros 1,000 o ymweliadau â'r wefan.

Datblygiad arall rydym bellach wedi'i greu yw'r defnydd o '[Gardiau Z](#)'. Mae ymarferwyr ar draws Gogledd Cymru yn gallu cael mynediad at nifer o gardiau Z ar arferion diogelu.

## **9.0 Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y dengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad.**

Yn dilyn cyflwyniad gan Dez Holmes yn ystod yr wythnos ddiogelu, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad dysgu ynghylch Diogelu Trosiannol. Amlygwyd yn flaenorol fod gennym fwllch yn y gwasanaethau mewn perthynas â'r broses bontio o fod yn Blentyn mewn Perygl i symud i fyd oedolion fel oedolyn mewn perygl posibl.

Pwrpas yr adolygiad dysgu oedd:

Canolbwyntio ar y 'trefniadau pontio' ar gyfer person ifanc y nodwyd ei fod mewn perygl o gael ei ecsbloetio a bod ganddo broblemau sylweddol wrth symud i fyd oedolion.

- ❖ Cyn i'r person ifanc ddod yn 18, a oedd gwasanaethau wedi deall lefel y risg a lefel y cymorth y byddai ei angen ar y person ifanc wrth iddo ddod yn oedolyn?

- ❖ Nodi'r meysydd i'w gwella/arferion da ar gyfer pob asiantaeth o amgylch y broses bontio wrth weithio gyda pherson ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio a phroblemau iechyd emosiynol sylweddol, yn enwedig yr Awdurdod Lleol a CAMHS.
- ❖ A gafodd barn y person ifanc ei hadlewyrchu yn y broses bontio.
- ❖ A wnaeth gwasanaethau ymateb yn effeithiol i'r pryderon diogelu a amlygwyd ôl-18?

Mae'r themâu allweddol a nodwyd yn cynnwys:

*Gall anawsterau i bobl ifanc wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau gael eu gwaethygu os yw eu rhieni hefyd yn camddefnyddio sylweddau. Mae rheolaeth effeithiol ar gamddefnyddio sylweddau gan blant neu bobl ifanc yn annog cyfranogiad rhieni neu ofalwyr. Os nad ydynt ar gael, neu os yw eu hymddygiad yn debygol o waethygu yn hytrach na gwella camddefnydd plentyn o sylweddau, dylid ystyried hynny fel risg yn hytrach na ffactor amddiffynnol.*

Mewn ymateb i'r thema allweddol hon, mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi gwneud rhagor o waith ar ddiweddarau canllawiau ymarfer rhanbarthol Cefnogi Plant Cefnogi Rhieni BDPGC - Rhieni â phroblemau iechyd meddwl difrifol a/neu gamddefnyddio sylweddau. Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o weithdai yn ystod haf 2022.

*Defnydd o iaith.* Mae asiantaeth yn defnyddio'r term 'mae ymddygiad cymryd risg wedi gwaethygu, mae'r plentyn yn camddefnyddio cyffuriau ac yn rhoi ei hun mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol arnynt'. Er bod yr iaith hon yn cael ei defnyddio'n gyffredin, mae'n awgrymu dewis ac asiantaeth ar ran y plentyn. Gall hynny leihau cyfrifoldeb oedolion i ddiogelu plentyn ac yn erbyn ymddygiad rheibus y rhai sy'n ceisio cam-drin a chamfanteisio.

Crëwyd y canllaw ymarfer "Iaith Briodol wrth drafod Diamddiffynedd Plant a Phobl Ifanc" i gefnogi ymarferwyr. Pan rydym yn disgrifio profiadau plant a phobl ifanc, dylid bob amser herio unrhyw iaith sy'n awgrymu bod plentyn, unigolyn ifanc, neu grŵp o bobl ifanc yn cyfrannu at neu'n gyfrifol am achosion o gamfanteisio neu droseddau y maent wedi'u dioddef.

Ar y cyfan o'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad dysgu hwn, mae'r BDGC wrthi'n ymgynghori ar Ganllaw Arfer Pontio Rhanbarthol drafft.

[Ymateb i ganfyddiadau o'r dadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru.](#)

Comisiynwyd y prosiect ymchwil hwn gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) (drwy Lywodraeth Cymru) i wthio'r agenda ddeallusol a'r hyn a ddysgir yn ei flaen y gellir ei gyflawni o ddadansoddiad systematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APRs).

Oherwydd y pryderon difrifol yr oedd yr adroddiad wedi'u hamlygu mewn perthynas â Diogelu Oedolion yng Nghymru, gofynnodd y Bwrdd am ymateb i'r adroddiad a diweddiadau eleni gan y Grwpiau Cyflawni Lleol.

Mewn ymateb i'r pum thema allweddol a'r 15 argymhelliad, mae BDOGC wedi cymryd y camau canlynol:

## Thema 1 - Diogelu

Mae Grŵp Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant y Bwrdd, ar y cyd gyda'r Uned Fusnes, wedi dechrau cynllunio sesiynau hyfforddiant i Staff a Darparwyr o fis Gorffennaf 2019, unwaith roedd wedi sefydlu y byddai'r gweithdrefnau yn cael eu lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Drwy ofyn i'r swyddogion hyfforddi rhanbarthol nodi pwy fyddai angen mynd i'r gyfran gyntaf o sesiynau hyfforddiant, aeth y sawl sydd ar y rheng flaen, ag angen brys i ddeall y newidiadau a nodwyd o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ddiwrnod hyfforddiant.

Rydym wedi cynnal 13 o ddiwyddiadau dysgu ar y Gweithdrefnau Diogelu Oedolion. Roedd gan bob digwyddiad dros 40 o ymarferwyr fesul sesiwn. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, rydym wedi datblygu Fideos Diogelu Oedolion ar y modiwl Diogelu Oedolion sydd ar gael i bob bwrdd ar Wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Rydym wedi datblygu gweithdy dysgu ar Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Diogelu Oedolion yn ystod y flwyddyn hon. Yn ogystal, roedd gennym hefyd archwiliad Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael ei gynnal gan bob asiantaeth statudol yn y rhanbarth.

Rydym hefyd wedi newid y templed perfformiad Oedolion mewn Perygl ar gyfer Grwpiau Cyflawni Lleol.

Mae'r templed yn ymdrin â'r materion canlynol:

- ❖ Gwybodaeth Perfformiad
- ❖ Sicrhau Ansawdd a Gwella
- ❖ Adran 5 Data a Materion.
- ❖ Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid / Diogelu Gwarchod Rhyddid
- ❖ Uwchgyfeirio Pryderon
- ❖ Gwaith wedi'i wneud o amgylch Blaenoriaethau'r Bwrdd.
- ❖ Diweddariadau Adolygiadau Ymarfer Oedolion/MAPF.

## Thema 2 – Comisiynu ac Arolygu

Mae protocol drafft Uwchgyfeirio Pryderon Rhanbarthol bellach yn agos at gael ei gwblhau:

Rydym yn parhau i olrhain argaeledd cyrsiau hyfforddi diogelu ar gyfer darparwyr gofal a hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o hyfforddiant diogelu E-ddysgu Cymru wedi'i ddiweddarau.

## Thema 3 - Pontio

Fel yr amlygwyd, rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ganllaw ymarfer Pontio drafft NWSB.

Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu, cyflwynodd Dez Homes o Ymchwil mewn Ymarfer i ymarferwyr ar Ddiogelu Pontio.

## Thema 4 – Llais y Person Diamddiffyn

Mae gwaith wedi'i wneud gyda'r Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol i sicrhau bod llais yr Oedolyn mewn Perygl yn cael ei gynnwys yn y broses ddiogelu. Arferion gwael i'w huwchgfyfeirio i'r BDOGC

Cynhaliwyd hyfforddiant Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Gweithdrefnau Diogelu Cymru ledled y rhanbarth

## Thema 5 - Gofalwyr a Theulu

Rydym wedi canolbwyntio ar yr angen i hyrwyddo canllawiau ymarfer Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar ymdrin â pherson â chanllaw ymarfer safbwynt gwahanol

Rydym hefyd yn hyrwyddo dogfen ganllaw Chwilfrydedd Proffesiynol ac yn cynnal digwyddiad hyfforddi yn ystod wythnos diogelu 2022.

## Adroddiad Blynyddol PRUDiC


Mae gweithdrefn PRUDiC lechyd Cyhoeddus Cymru yn gosod safon ofynnol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl mewn babandod a phlentyndod. Mae'n disgrifio'r broses o gyfathrebu, gweithredu ar y cyd a rhannu gwybodaeth yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn.

Mae'r Bwrdd yn monitro'r prosesau PRUDiC a gychwynnir yng Ngogledd Cymru ac yn sicrhau bod yr ymateb gweithdrefnol yn cael ei ddilyn hyd at ei gwblhau.

### Uned Fusnes BDPGC:

- ❖ Derbyn Hysbysiad Marwolaeth Plentyn (Atodiad 5) gan yr Heddlu yn dilyn y Cyfarfod Trafod Achos.
- ❖ Derbyn Templed Crynodeb Achos (Atodiad 6) gan yr Heddlu yn dilyn y Cyfarfod Adolygu Achos.
- ❖ Monitro cynnydd pob proses PRUDiC a sicrhau y bodlonir amserlenni. Bydd unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn hon, ni wnaethom nodi unrhyw themâu ymarfer penodol.



## 10.0 Y nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardal y Bwrdd Diogelu.

Yn ystod y cyfnod hwn, ni wnaeth unrhyw un o'r chwe awdurdod lleol yn yr ardal gyflwyno unrhyw gais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn. Rydym yn ymwybodol y bu trafodaethau gyda chynrychiolwyr cyfreithiol ond mae llwybrau amgen wedi'u canfod yn hytrach na gwneud cais am orchymyn.

Diweddarodd BDOGC y canllawiau ymarfer rhanbarthol o ran Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i adlewyrchu enwau swyddogion arweiniol / cymeradwy sydd â chyfrifoldeb am wneud cais am orchymyn yn dilyn newidiadau staffio yn yr ardal.

 [Canllawiau Ymarfer Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion](#)

## 11.0 Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu

Mewn perthynas â Diogelu Oedolion, gwnaeth BDGC waith penodol gyda'r Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol. Fe wnaethom gomisiynu Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Darparwyr Eiriolaeth.

Fel rhan o'r Grwpiau Cyflawni Lleol yn y Rhanbarth, mae cynrychiolwyr Eiriolaeth yn y cyfarfodydd yn rhoi adborth gan yr Oedolyn Mewn Perygl ynghylch eu barn am y broses ddiogelu.

O'r adborth a gasglwyd, roeddem yn gallu cyflwyno negeseuon allweddol ar draws y rhanbarth ar gyfer ymarferwyr diogelu.



Briff 7 Munud

Cynllunio Cyfarfodydd Diogelu – Lleisiau a Disgwyliadau Dinasyddion

7 Minute Briefing

Planning Safeguarding Meetings - Citizen Voices and Expectations



2. Cynllunio Cyfarfod Diogelu

- Meddylwch sut y gallen nhw fod yn teimlo.
- Meddylwch sut y bydddech chi'n teimlo yn eu sefyllfa nhw.
- Os oes yno gyfarfod amcangyn nhw nad ydyn nhw'n cael mynd iddo – dywedwch wrthynt nhw pam.
- Cofiwch fod pobl yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau nhw.
- Ychydig ddyddiau cyn y cyfarfod, ffoniwch nhw neu anfonwch llythyr atynt nhw i ddweud beth fydd yn digwyd.

2. Planning a Safeguarding meeting

- Think about how they may be feeling.
- Think about how you would feel in their shoes.
- If there is a meeting about them that they are not invited to - tell them why.
- Remember people are making decisions about their life.
- A few days before the meeting either call them or send them a letter explaining what will happen.

Mewn perthynas â Gwasanaethau Plant, nid oedd y gwaith a wnaed gyda'r gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol yn llwyddiannus o ran creu Bwrdd Diogelu Iau. Yn lle hynny yn ystod y flwyddyn, mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi bod yn rhoi cyflwyniad i ysgolion a cholegau dethol ar rôl y Bwrdd a negeseuon allweddol.

Mae hyn wedi rhoi cyfle i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru rannu canllawiau drafft y canllawiau ymarfer / briffiau 7 munud canlynol ac mae'r plant wedi ychwanegu at y canllawiau.

BRIFF 7 MUNUD

Camfanteisio ar Blant - laith sy'n Beio'r Dioddefwr

- Dydai plentyn ddim yn gyfrifol am fod mewn perygl
- Mae rhyw yn camfanteisio'n rhywiol ar y plentyn
- Mae oedolyn yn hwyluso'r cyswllt yma
- Mae'r plentyn yn cael ei ecsbloetio at ddiibenion troseddol
- Dydai camfanteisio rhywiol ddim wedi bod yn ddewis i'r plentyn
- Mae oedolyn yn ymddwyn yn amhriodol gyda plentyn

**Child safety on TikTok**

TikTok is a video sharing app. Users can upload and share short videos of themselves. Looking up to songs or other content can also have effects. They can gain followers and send direct messages.

The app recommendation is 13 and above. However, you don't have to prove your age when creating an account, so younger children can still use it. Parents should be aware of what their child is doing.

**What are the concerns:**

- Users can send images and videos via in-app messaging, but even those are made visible to other users on the platform to look, such as Snapchat.
- TikTok has taken steps to remove users who fit a category and reporting underage users. However, there are a lot of many reports of profiles and the like has continued to grow, adding the number of content in violation. It employs to 15,000 to address this.

**What safety options are available to parents?**

- Check if you can view your child's account.
- Set your child's account to 'private' so that only your child can see their videos or keep their content private. Your child will be able to approve or deny people as 'fans' and will only be able to accept messages from followers.
- Accounts are not set to 'public' by default. Public profiles can be viewed by anyone.
- Even with a private account, your child's profile information can be seen by all users. Make sure you don't share personal information on your public profile.

**Make sure your child knows how to report inappropriate behaviour.**

Your child can use the app to report content that makes them feel uncomfortable, including accounts, videos, comments and chats. You can too. Instructions for this are here: <https://www.tiktok.com/@tiktok/help-center/subscriptions/1000000000000000>

You, or your child can also block fans at any time. <https://www.tiktok.com/@tiktok/help-center/subscriptions/1000000000000000>

**What else can I do?**

I would advise more privacy and safety on tik tok at this time. <https://www.tiktok.com/@tiktok/help-center/subscriptions/1000000000000000>

1. Download and use the app to help you understand it
2. Talk to your child about what they're doing online, and make sure they know how to report anything that worries them
3. Check your bank statements regularly for in-app purchases you're not happy with, and to make sure your child isn't getting around any payments you've set up

<https://www.northwales.gov.uk/safeguarding-boards/>

Rydym hefyd wedi cael adborth gan Rieni/Gofalwyr ynghylch y negeseuon allweddol y mae teuluoedd am i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ganolbwyntio arnynt. Yn benodol, gofynnwyd i ni ddatblygu rhai negeseuon allweddol o amgylch TikTok. Amlygwyd pryderon yn yr ysgolion ynghylch rhai fideos a oedd yn cylchredeg yn annog trais tuag at staff addysg.

Datblygwyd gywbonaeth arall i ddiogelu plant rhag camfanteisio ar-lein hefyd, un enghraifft yw: 15 o apiau y dylai rhieni wybod amdanynt.

[Cerdyn Z TikTok](#)  
[16 o Apiau y Dylai Rhieni Wybod Amdanynt.](#)

**PYMTHEG O APIAU Y DYLAI RHIEINI WYBOD AMDANYNT**

**ASKfm** - ASKfm is a social media app where users can ask questions and receive answers. It is popular among young people and can be used to spread rumors or cyberbully.

**BUMBLE** - BUMBLE is a dating app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

**GRINDR** - GRINDR is a dating app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

**MEETME** - MEETME is a social media app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

**TIKTOK** - TIKTOK is a video sharing app where users can upload and share short videos of themselves. It is popular among young people and can be used to spread rumors or cyberbully.

**WHATSAPP** - WHATSAPP is a messaging app where users can send text messages, photos, and videos. It is popular among young people and can be used to spread rumors or cyberbully.

**WHSPEER** - WHSPEER is a social media app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

**ASKfm** - ASKfm is a social media app where users can ask questions and receive answers. It is popular among young people and can be used to spread rumors or cyberbully.

**BUMBLE** - BUMBLE is a dating app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

**GRINDR** - GRINDR is a dating app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

**MEETME** - MEETME is a social media app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

**TIKTOK** - TIKTOK is a video sharing app where users can upload and share short videos of themselves. It is popular among young people and can be used to spread rumors or cyberbully.

**WHATSAPP** - WHATSAPP is a messaging app where users can send text messages, photos, and videos. It is popular among young people and can be used to spread rumors or cyberbully.

**WHSPEER** - WHSPEER is a social media app where users can find potential partners. It is popular among young adults and can be used to groom children.

12.0 Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymhell neu ei ddarparu.

Hyfforddiant a Digwyddiadau :

	Teitl y digwyddiad a disgrifiad byr	Trefnydd:
Mai 21	<p><b>Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol - Hyfforddiant Amlasiantaeth</b></p> <p>Fel rhan o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol, darparwyd yr hyfforddiant gan Ymddiriedolaeth Lucy Faithfull</p>	<p><b>BDGC/ Llywodraeth Cymru</b></p>

	<b>Teitl y digwyddiad a disgrifiad byr</b>	<b>Trefnydd:</b>
<b>Medi 21</b>	<p><b>Dysgu o Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru ar gyfer Addysg</b></p> <p>Oherwydd yr hyn a ddysgwyd o adolygiad Ymarfer Plant, fe wnaethom gynnal digwyddiadau penodol ar gyfer ymarferwyr addysg yn ymwneud â – cydymffurfiaeth gudd a diffyg presenoldeb.</p>	<b>BDGC</b>
<b>Hyd 21</b>	<p><b>Methu Adref – Cyfweiliadau Dychwelyd o Gartref</b></p> <p>Arfer orau ar Gyfweiliadau Dychwelyd o Gartref ac ymwybyddiaeth o'r Canllawiau Ymarfer Cenedlaethol.</p>	<b>BDGC</b>
<b>Hyd 21</b>	<p><b>Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r canllawiau ymarfer asesu cyn geni</b></p> <p>Ymgynghori ar y Canllawiau Ymarfer a thynnu sylw at ymchwil allweddol sydd wedi llywio'r canllawiau</p>	<b>BDGC</b>
<b>Hyd 21</b>	<p><b>Diogelu Cyd-destunol a Chyd-destun Cyfreithiol Cymru</b></p> <p>Trefnodd BDGC ddau ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr ledled Cymru i ystyried sut y gellir addasu Diogelu Cyd-destunol i gyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.</p>	<b>BDGC</b>
<b>Drwy gydol y flwyddyn</b>	<p><b>Hyfforddiant Cyd-Ymchwilio/ Sicrhau'r Dystiolaeth Orau</b></p> <p>Mewn ymateb i bryderon ynghylch y gweithlu diogelu dibrofiad comisiynodd y Bwrdd fwy o hyfforddiant Cyd-Ymchwilio a Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, trwy Heddlu Gogledd Cymru.</p> <p>Mae'r hyfforddiant Cyd-Ymchwilio wedi'i gynnal yn rhithiol ar sail dreigl. Ariennir yr hyfforddiant gan BDGC</p>	<b>BDGC</b>
<b>Chwe 22</b>	<p><b>Trosolwg o'r Canllawiau Statudol ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol</b></p> <p>Rhoddodd y digwyddiad gyfle i ymarferwyr fyfyrion ar yr ymchwil cenedlaethol a lywiodd y canllawiau.</p>	<b>BDGC</b>
<b>Mawrth 22</b>	<p><b>Rôl yr Adolygydd Ymarfer Plant</b></p> <p>Oherwydd y prinder Adolygwyr Mewnol yng Ngogledd Cymru, fe wnaethom ddarparu mwy o hyfforddiant i unrhyw un oedd â diddordeb mewn bod yn adolygydd.</p>	<b>BDGC</b>

## 13.0 Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol.

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi ymateb i ganllawiau a chyngor a roddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

[Gweithredu ac ymwybyddiaeth o Ddeddf Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol\) \(Cymru\) 2020](#)

Dros y deuddeg mis diwethaf mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â'r canlynol:

- ❖ Trwy wefan BDGC – fe wnaethom flogiau diogelu penodol ar y Ddeddf.
- ❖ Dosbarthu holl ddeunyddiau Llywodraeth Cymru i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd.
- ❖ Cymryd rhan yn y Digwyddiad Cenedlaethol a hyrwyddo'r Ddeddf drwy'r 'Advan'.



- ❖ Annog holl bartneriaid y Bwrdd i hybu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Gweler enghraifft o arfer da trwy BIPBC.
- ❖ Wedi cysylltu â'r holl Bartneriaethau Diogelu yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Swydd Amwythig i amlygu ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru.
- ❖ Wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes ar gyfer 22/23 yr angen i fonitro effaith y Ddeddf.

### [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol](#)

Rydym wedi parhau i ymateb i gynllun gweithredu Cenedlaethol yr Asiantaeth Cynnal Plant. Caiff ei ddiweddarau drwy'r Grwpiau Cyflawni Lleol a byddwn yn anfon fersiwn derfynol y cynllun ym mis Gorffennaf 22.

### [Adolygiad Diogelu Unedig Sengl \(SUSR\)](#)

Mae gan BDGC gynrychiolwyr ym mhob un o'r is-grwpiau Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Rydym yn parhau i hybu ymwybyddiaeth trwy rannu'r sesiynau briffio 7 munud sydd wedi'u

creu gan grŵp llywio Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Cawsom gyflwyniadau hefyd gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn y rhanbarth.

Rydym yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac er gwaethaf yr heriau sylweddol, gallwn weld y manteision sydd wedi'u nodi.

### Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol

Rydym wedi nodi bod angen i ni wneud mwy o waith o fewn y rhanbarth ar y canllaw ymarfer hwn ynghylch hybu ymwybyddiaeth.

### Ymgynghoriad ar Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn arwain ar ddatblygu Safonau Hyfforddiant Diogelu Cymru. Mae cynrychiolwyr o Ogledd Cymru wedi bod ar y grŵp datblygu cenedlaethol amlasiantaeth yn ogystal â grwpiau eraill sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol o'r gwaith.

### Bwrdd Cenedlaethol

Mewn perthynas â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mae'r rhanbarth wedi cyfrannu at y gweithgor ar Werthuso trefniadau diogelu gweithredol o Integreiddio Amlasiantaeth yng Nghymru. Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi croesawu ychwanegu'r adolygiad sy'n ystyried effeithiolrwydd y peilot MASH yng Nghonwy.

Rydym wedi ymateb i'r Adroddiad Thematig Cenedlaethol ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith ar ddatblygu mesuryddion perfformiad ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

## 14.0 Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu.

### Trefniadau Diogelu Rhyddid

Mae'r broses ymgynghori ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid ar fin dechrau, gan gymryd lle'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel y system i amddifadu rhywun o'u rhyddid. Mae'r BDOGC wedi cael diweddariadau rheolaidd trwy'r Grwpiau Darparu Lleol ynghylch y nifer o awdurdodiadau ac adnewyddu sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn pryderu bod y ddeddfwriaeth newydd yn mynd i gynyddu'r galw ar y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth.

Os byddwn yn cadw at egwyddor arweiniol Gorllewin Swydd Gaer, byddwn yn gweld cynnydd sylweddol mewn awdurdodiadau. Mae angen inni hefyd ystyried yr effaith ar y Gwasanaethau Plant.

### Hyrwyddo Diogelu Oedolion

Amlygodd yr adolygiad thematig cenedlaethol o Adolygiadau Ymarfer Oedolion bryderon difrifol ynghylch y diffyg ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd i adrodd ar Oedolion mewn Perygl. Fel rhanbarth rydym wedi ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad ond rydym yn pryderu bod angen Gwaith Cenedlaethol pellach yn y maes hwn.

Hoffem weld y canlynol:

- ❖ Defnyddio lansiad Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer atal cam-drin pobl hŷn i hyrwyddo ymgyrch genedlaethol.
- ❖ Datblygu canllawiau ymarfer cenedlaethol ategol ar feysydd ymarfer penodol i gyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

### Dysgu'r Gweithlu

Mae'r is-grŵp Diogelu Dysgu, Datblygu a Hyfforddiant y Gweithlu wedi amlygu pryderon ynghylch y dull/ceisiadau parhaus i hyrwyddo modelau Hyfforddi'r Hyfforddwr o ran materion diogelu cenedlaethol.

Mae'r model Hyfforddi'r Hyfforddwyr yn gosod pwysau ar y gweithlu yn y rhanbarth ac yn arbennig ar ymarferwyr allweddol, sydd angen canolbwyntio ar faterion gweithredol rheng flaen. Un o'r adlewyrchiadau yn ystod y cyfnodau clo fu'r defnydd creadigol o lwyfan digidol i gyflwyno digwyddiadau dysgu allweddol.

### Adlewyrchu ar Ddefnyddio Lleoliadau Heb eu Rheoleiddio

Rydym wedi tynnu sylw at y prinder posibl o Leoliadau Maeth ar draws y rhanbarth ond hefyd lleoliadau preswyl arbenigol yng Nghymru.

Teimlwn y dylid cynnal trafodaeth aeddfed yn ystod y flwyddyn gyda Llywodraeth Cymru, AGC a phartïon eraill â diddordeb ynghylch y defnydd o Leoliadau Heb eu Rheoleiddio pan nad oes opsiynau pellach ar gael. Rydym yn y broses o gwblhau adolygiad thematig o achosion lle roedd angen darpariaeth arbenigol ar y plentyn/person ifanc. Mae'r adolygydd annibynnol wedi amlygu bod y cyfnod o sefydlogrwydd mwyaf wedi'i gyflawni i'r plentyn/person ifanc pan fu'n rhaid i awdurdodau ddatblygu darpariaeth/lleoliad sy'n sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael ei gadw o fewn y rhanbarth.

### Dysgu o Adolygiadau Ymarfer

Un o'r heriau y mae'r Bwrdd wedi'i nodi ar gyfer 22/23 yw nifer yr adolygiadau ymarfer plant/oedolion â phroffil uchel a fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae'r Bwrdd yn teimlo y bydd hwn yn gyfnod heriol ac yn arbennig i reoli nifer yr argymhellion ymarfer a wneir yn ystod y flwyddyn.

## Atodiad 1: Rhestr Termau:

ADD	Adolygiad Dynladdiad Domestig	DPA	Dangosydd Perfformiad Allweddol
ADIM	Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl	DGCLI	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ALI	Awdurdod Lleol	DoLS	Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid
AYO	Adolygiad Ymarfer Oedolion	GAPCG	Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
AYOE	Adolygiad o Ymarfer Oedolion Estynedig	GCIGC	Gwasanaeth Cyngori Iechyd a Gofal Cymdeithasol
AYP	Adolygiad Ymarfer Plant	GCLI	Grwpiau Cyflawni Lleol
AYPE	Adolygiad o Ymarfer Plant Estynedig	GH a DG	Grŵp Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu
BDAC	Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	GIP	Gofal Iechyd Parhaus
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	GPC	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
BLIDP	Bwrdd Lleol Diogelu Plant	HGC	Heddlu Gogledd Cymru
BDGC	Byrddau Diogelu Gogledd Cymru	ICC	Iechyd Cyhoeddus Cymru
BDOGC	Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru	IMO	Iechyd Meddwl Oedolion
BDPGC	Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru	LIC	Llywodraeth Cymru
CAC	Cwmni Adsefydlu Cymunedol	MAPF	Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc	MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth
CAMPUS	Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Realistig, Amserol	NSPCC	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	P a G	Polisi a Gweithdrefnau
CBSW	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	PDGGC	Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol
CCH	Comisiynydd Cwynion yr Heddlu	POVA	Amddiffyn Oedolion sy'n Ddiamddiffyn
CG	Cyngor Gwynedd	PRUDIC	Ymateb Trefniadol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentynod
CRhB	Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant	PVPU	Uned Amddiffyn Unigolion Diamddiffyn
CSDd	Cyngor Sir Ddinbych		
CSFf	Cyngor Sir y Fflint		
CSYM	Cyngor Sir Ynys Môn		

**Os oes gennych unrhyw sylwadau am  
waith y Bwrdd, neu'n dymuno darganfod  
rhagor, gallwch gysylltu â Bwrdd Diogelu  
Gogledd Cymru ar  
01824 712903 neu  
[Regionalsafeguarding@denbigshire.gov.uk](mailto:Regionalsafeguarding@denbigshire.gov.uk)**